# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 170 IONAWR 1991

## Blwyddyn Newydd Iach!



*Casglu Calennig – o gasgliad Sain Ffagan*

CYNNWYS

Colofn Shân ....... 3
Sêr .............. 5
Bwth Ruth ........ 4
Safbwynt ............ 7
Y Calendar .......... 2
Croesair ............ 19

YN RHAD AC AM DDIM

# Clwb Tŷ'r Cymry mewn Perygl!

**Mewn cyfarfod cyhoeddus o Glwb Tŷ'r Cymry ar 20fed Tachwedd 1973, "Mynegodd y Fns Gwerfyl Arthur (Ysgrifennydd) ei hamheuaeth fod diben dros fodolaeth y Clwb bellach." Mewn cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Clwb yn y mis Ionawr canlynol, "Barnai y Fns Eleanor Davies y byddai angen am Dŷ'r Cymry yn y dyfodol, ac efallai yn y dyfodol agos."**

Cymerwyd bron 15 mlynedd i wireddu gosodiad y Fns Davies, ac i gyfiawnhau ei ffydd yn y ganolfan hon. Mawr yw ein dyled i'r rhai hynny a gadwodd ffydd ac a fynnodd ysgwyddo'r baich o gadw'r hen dŷ i fynd yn wyneb pob rhwystr, pob methiant, a siom.

Ie, siom. O edrych yn awr trwy gofnodion cyfarfodydd y tŷ, gwelaf gyfeiriadau di-rif, flwyddyn ar ôl blwyddyn, at siomedigaeth y swyddogion a'r aelodau ym methiant y tŷ fel canolfan i'r Cymry yng Nghaerdydd: ond mynnasant gario ymlaen er gwaethaf y diffyg cefnogaeth.

Ni wn paham. Ni welaf yn unman ddim tystiolaeth y byddai angen y tŷ hwn. Ni welaf sail i'w ffydd yn y blynyddoedd tywyll hynny. Ond hwy oedd yn iawn, ie, hwy oedd yn iawn.

Ar ddechrau 1991, y mae'r amser wedi dod inni anghofio'r anobaith a fu, a dathlu'r llewyrch y sydd. Nid "Yma o Hyd" ydyw'r gân, na hyd yn oed "Yma i aros", ond yma i gynyddu yr ydym.

Y mae Tŷ'r Cymry'n ganolfan i ysgol feithrin, i Gymdeithas yr Iaith, i Fudiad Addysg Gristnogol Cymru, i UCAC, ac i'r Ymgyrch dros Senedd i Gymru. Yn bwysicach fyth, y mae'n ganolfan i gant a hanner o ddysgwyr Cymraeg – ie, cant a hanner.

Beth, tybed, fyddai'r rhai presennol yn y cyfarfod di-galon hwnnw ym 1973 wedi'i ddweud pe bai un wedi awgrymu y byddai pob ystafell yn y tŷ'n llawn ar nifer o nosweithiau ym 1990? Sgersli bilîf?

Gweithgarwch di-flino criw go fach sydd i gyfrif am lwyddiant Tŷ'r Cymry, a phan ofynnwyd am gymorth ariannol Cymry Cymraeg y Brifddinas y llynedd, ni chafwyd ymateb o gwbl. Gresyn ynte? Ac am hyn, golwg go lom sydd ar y lle o hyd. Ond fe gerddwn ymlaen, gyda'ch cymorth, o ddarllenydd, neu hebddo i hyrwyddo achos y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Na, nid "Fe godwn ni eto" – "Fe godasom".

Blwyddyn newydd dda ichi i gyd.

## Y CALENDAR

**IONAWR:**

**8:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Tiroedd a Thirluniau: Mr Mostyn Jones.

**9:** Merched y Wawr Cangen Bro Radur: "Dewch ac Ymlaciwch": Valmai Evans.

**11:** Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: "Byd Natur": Ted Edwards.

**14:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Dr Dewi Lewis: Seicoleg Cenedlaetholdeb.

**15:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Crwydro gyda Mrs Gillian Evans.

**15:** Cymdeithas Minny Street: "Caerdydd, Merthyr a Chamlas Morgannwg": Mr E O Edwards.

**16:** Canu'r Bobol – Adran efrydiau allanol y Brifysgol. Shân Emlyn is Darlith.

**18:** Cylch Llyfryddol Caerdydd: Dr Ceinwen H Thomas: "Rhyddiaith D J Williams".

**21:** Cymdeithas Carnhuanawc "Llyfrgell Caerdydd" Mr. Bryn Jones, Clwb Ifor Bach.

**22:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: "Ar yr awyr": Mr Iwan Thomas.

**25:** Merched y Wawr Cangen Bro Radur: Noson y Santes Dwynwen: Robin Jones.

**29:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Codi Cwestiwn.

**30:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro: Y Parchedig Gareth Watts.

**CHWEFROR:**

**1:** Cymrodorion Caerdydd yn y Tabernacl: Dr Elwyn Hughes: "Ai methiant yw maetheg?"

**5:** Cymdeithas Minny Street: Ymweliad Cymdeithas Salem, Treganna.

**5:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: "Plant – Profiadau Oes": Mrs Mair Owen.

**8:** Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Gerddorol: Mrs Eilonwy Jones.

**11:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Yr Haen Osôn: Dr Geraint Vaughan.

**12:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Rhaglen yr Ysgol Sul.

**15:** Cylch Llyfryddol Caerdydd: "Un o gyfrolau Iolo Morgannwg": Yr Athro Ceri W Lewis.

**18:** Cymdeithas Carnhuanawc "Syr John Wynn O Wydr" Dr J. Gwynfor Jones, Clwb Ifor Bach.

**19:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Ymweld â Chapel Ebeneser.

**26:** Cymdeithas Minny Street: Cinio Gŵyl Ddewi: Gwesteion: Y Parchedig a Mrs Eifion Powell.

**27:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro: Dennis Francis.

**MAWRTH:**

**18:** Cymdeithas Carnhuanawc "Hanes y Cymry yn yr Unol Daleithiau yn yr 19 Canrif" Dr Bill Jones, Clwb Ifor Bach.

# GWEITHDY NEWYDD

Cyflwynwyd cymhorthdal arbennig i Weithdy Cymraeg Ieuenctid Theatr y Sherman. Hwn oedd y cymhorthdal mwyaf erioed a ddyfarnwyd o gronfa a glustnodwyd yn arbennig i barhau a datblygu theatr ieuenctid.

Rhoddwyd y prif wobr o £2,000 i'r Gweithdy gan Gymdeithas Genedlaethol Theatrau Ieuenctid. Hyhi sy'n gweinyddu'r gronfa a elwir 'Mentrau Newydd'. Cystadlodd y Sherman yn llwyddiannus yn erbyn deugain o geisiadau cyffelyb oddi wrth amryw grwpiau ieuenctid a obeithiai am gymhorthdal gan y corff hwn.

Yr oedd arweinydd ieuenctid y Sherman, Adam Fresco, a luniodd y cais am arian ar ôl sefydlu Y Gweithdy fis Medi eleni yn dra balch o'r canlyniad. "Profodd arweinydd Y Gweithdy (yr actor proffesiynol Eryl Huw Phillips) a'r union syniad am gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn eithriadol boblogaidd" medd Adam. "Dechreua ail gwrs gan Y Gweithdy ym mis Ionawr ac fe fydd yr ariannu haeddiannol hwn yn gymorth i'r Gweithdy ddatblygu ac ehangu. Gobeithir y bydd iddo dalu am gynhyrchiad a hwyrach am daith gan y grŵp yn y dyfodol.



*Eryl Phillips – tiwtor "Y Gweithdy" gydag aelodau ifanc o grŵp drama ieuenctid Cymraeg cyntaf Theatr Sherman.*

# COLOFN SHÂN

**"Mae'r flwyddyn yn marw ei hamser a ddaeth**
**O fil o flynyddoedd ei hamdo a wnaeth**
**Mae'r gwynt yn galaru a'r glaw red yn rhwydd**
**A'r clychau yn canu ffarwel i'r hen flwydd"**

Y geiriau yna sydd wedi bod fel tiwn gron yn fy mhen wrth feddwl am lenwi'r golofn hon, ac wrth wynebu her ac ansicrwydd blwyddyn newydd. Tybed beth fydd ein tynged? Da o beth yw hi na wyddom ni ddim. Rwyf yn ysgrifennu hyn o lith yn blygeinol iawn yn y Felinheli tra yn disgwyl i'r cartre bach ddeffro am y dydd. Deffro i ddathlu a mwynhau penblwydd Ifan yn flwydd oed. Y mae yma gacen siap Tedi ac un gannwyll arni – wedi ei chau yn y Stydi – rhag i Grwndi'r gath fynd i'r afael â hi. Yn gwmpeini i'r Tedi, y mae yno Jeli coch siap cwningen ac un arall siap llygoden. Ar y soffa y mae yna bentwr o anrhegion a chardiau. Am dri o'r gloch fe fydd yma barti, a disgwyliwn ryw hanner dwsin o gyfoedion Ifan a'u mamau. Daw'r tadau heibio ar eu ffordd o'u gwaith, Taid a Nain Afallon, wrth gwrs, ac Anti Mêms (Maimie Noel Jones) sy'n pontio'r cenedlaethau, ac yn rhan o'm plentyndod i ac Elin a Mari. Braf meddwl bod yr olwyn wedi troi a'i bod yn rhan o blentyndod Ifan hefyd, a hi fydd yn chwarae penblwydd hapus ar y piano.



Go brin y bydd Ifan a'i gwmni yn sylweddoli nac yn amgyffred arwyddocad yr hwyl-ond fe gawn ni y to hŷn, 'dwi'n siwr, gryn bleser. Ers rhai wythnosau y mae Mari wedi bod yn dysgu Ifan i ddweud neu wneud ac i ateb "Pa sŵn mae gwynt yn 'i neud"? – gyda'r nod y gall chwythu a diffodd yr un gannwyll sydd yng ngheg Tedi'r gacen! Finna wedi bod yn ddyfal ddrilio'r creadur bach i ddeud "Nain Shân", sy'n llai trwsgwl na "Nain Caerdydd". Wedi cryn ddyfalbarhad ar ran y ddau ohonom, y mae wedi llwyddo i ddeud "Sh – Sh – Sh – â – n wedi i mi ddeud Nain. Plesio'n o arw cofiwch – pethau bach bywyd sy'n werthfawr ynte? Fy nymuniad i holl ddarllenwyr Y Dinesydd, ac i mi fy hun, yw y cawn ni bob un ohonom, berlau bach o brofiadau yn y flwyddyn newydd hon. Blwyddyn Newydd Ddedwydd iach i chi i gyd.



**PRIODAS**

Ar Dachwedd 10fed priodwyd Huw, mab Ben a Joan Thomas, Cyncoed a Siân, merch John a Margaret Evans, Caerffili. Wrth Longyfarch y ddau a'i teuluoedd, dymunwn yn dda i Huw yn ei waith gyda'r BBC ac i Siân yn ei swydd newydd fel swyddog Gofal Undeb y Myfyrwyr, Coleg Caerdydd, Prifysgol, Cymru.

Pob llwyddiant a phob hapusrwydd iddyn nhw ar ran holl ddarllenwyr y Dinesydd.

# Mozart a'r Celtiaid

**Mae 1991 yn flwyddyn fawr i Mozart ac i'r Celtiaid. I ni Gymru mae'r cyd-ddigwyddiad yn ddigon ffansiol. Ganwyd Mozart yn Saltzburg â threuliodd ei bum mlynedd ar hugain cyntaf o'i fywyd ynddi, ac ar grwydr, cyn symud am ddeng mlynedd olaf ei oes fer i Vienna. Yno bu farw yn 1791 a dyna sy'n cyfri am y dathlu mawr o'i fywyd a'i waith drwy gydol y flwyddyn. Fe gafwyd eisoes farchnata trwyadl i hybu pob agwedd ar Mozart – llyfrau, recordiau, rhaglenni radio a theledu, ffilmiau, doethinebu a dyfarnu ar bob llaw.**

Mae gan Neuadd Dewi Sant le amlwg iddo drwy'r flwyddyn gyda chyngherddau lu o fis i fis yn tynnu sylw at ei waith. Bydd gan ein cwmni opera cenedlaethol gyfraniad wrth iddo lwyfannu 'Idomeneo' lle mae Mozart ar drothwy ei yrfa nodedig fel cyfansoddwr opera.

Bydd llu o berfformiadau gan gymdeithasau cerdd y brifddinas ac mae gan Gymdeithas Recordiau Caerdydd hithau ei darpariaeth arbennig dros y flwyddyn o Ionawr tan Rhagfyr.

Nid nepell o ddinas Salzburg saif Hallein. Yn y dref hynafol hon mae Amgueddfa Geltaidd bwysig sy'n sefyll ar lan afon Salzach ac yng nghysgod Mynydd Dürnberg. Mae'r mynydd hwn yn ganolfan allweddol i'r traddodiad Celtaidd. Mae'r llethrau'n dal i gael eu cloddio ac yn dal i ddatgelu tystiolaeth archeolegol o bwys.

Mae gan Fwrdd Croeso Cymru gynlluniau mawr ar y gweill eleni i ddathlu'r etifeddiaeth Geltiadd. Mae CELTICA yn fenter Ewropeaidd a chynhelir arddangosfeydd o bwys o Gaerdydd i Fenis.

Fe drefnwyd cyfres o ddarlithiau ledled Cymru gan ysgolheigion Celtaidd. Bydd arddangosfa bwysig a helaeth yn yr Amgueddfa Genedlaethol ac fe ymgorfforir Gŵyl Ryngwladol y Delyn, Caerdydd fel rhan o'r dathliadau.

Fel y dathliad Mozart bydd llu o ddigwyddiadau mawr a mân, llawer o gyhoeddiadau a thipyn o weithgarwch yma ac ar draws y Cyfandir. Erbyn diwedd y flwyddyn fe ddylen fod dipyn callach ein profiadau cerddorol a'n traddodiad Geltaidd yn arbennig o gofio i ffynhonnell y ddau ymylu ar ei gilydd yn nhalaith Salzburg.

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd? Dwi'n sgwennu'r pwt, yma wrth i'r llong Geest Port gyrraedd cyrion gwledydd Prydain. Dwi newydd adael parti yn Caban A – gwraig i ffarmwr moch enfawr (y ffarm sy'n enfawr nid y wraig na'r moch) a dwi'n cerdded bwrdd y llong o'r bow i'r styrn am y tro olaf y fordaith hon. Mae'n cymryd dau funud a hanner i gerdded o un pen i'r llall rhwng y degau o flychau mawr 'containers' sydd wedi llwytho ar i bwrdd. Mi fyddai'n rhaid ei cherdded bum gwaith i gerdded milltir!! Peidiwch â gofyn faint o gargo amrywiol sydd i mewn ym mol y llong – mi wn i fod yna gannoedd ar filoedd o fananas tywyll mewn bocsus yno ag maen nhw'n cael tendans gwell na ni'r teithwyr ar y ffordd o ynysoedd y Caribi i'r Barri – mae'n rhaid i'r bananas gadw rhag aeddfedu cyn cyrraedd tir mawr.

Ar y daith allan mi ddaru ni gario hen Volvo ystad, hen lori pic-up a Porsche newydd sbon danlli i rywun – weles i mo'r car yma gan ei fod yng nghrombil y llong ond dyna fraw ei weld yn cael ei lanio fel morfil ar ddiwedd chaen ar ynys Barbados. Mae yna ddau fan lle rydw i wedi ffeindio lle i enaid gael llonydd yn ystod yr wythnosau diwethaf 'ma. Y cyntaf i fyny ym mow y llong – nid reit ar y blaen achos mae yna dwll enfawr yn fano i ollwng angor ond rhyw lathen neu well oddi yno – tydw i erioed wedi gweld neb arall yno yr un pryd â mi. Dyna brofiad gweld chwinc ola'r haul yn machlud fros fôr Iwerydd a'r un enaid rhyngom ni. Efallai mai darllen llyfr Aled Eames 'Gwraig y Capten' sydd wedi gwneud i mi synhwyro a bod yn llawer mwy ymwybodol o fy amgylchedd. Mae Gwraig y Capten yn y llyfr wedi rowndio'r horn hefo'i gŵr yn y ganrif ddiwethaf, dyna ninnau ddwsin ohonom yn mwynhau cyfforddusrwydd a phleserau'r ugeinfed ganrif ar long gargo heb fod yn rhy fawr, wrth ei chymharu â'r llongau 'cruisers' fel y Sky Princess a'r Royal Viking Star, sef llongau moethus i'w rhyfeddu yr ydan ni wedi eu gweld wrth ymweld ag ynysoedd Antigua, St Lucia, St Vincent, Barbados, Grenada a Dominica.

Y swyddogion ar fwrdd llong wedi bod yn gwmni diddan ag yn rhannu bwrdd â ni bob nos wrth deithio draw a nôl o'r ynysoedd. Y Capten yn hannu o Abertawe ag yn mynnu bod bara lawr a chig oen Cymru yn cael lle teilwng ar fwrdd bwyd y llong. Y peiriannydd yn hogyn o'r Barri a'i sgwrs mor aml yn troi at ei deulu yno – yn wraig, dwy ferch a thair wyres. Hogyn o Lerpwl oedd y "Percer" – hwnnw yn byrlymu o hiwmor naturiol y ddinas honno. Acen ein prif ddinas ni oedd gan yr hogia fu'n gweini ond Cymol o Sais yfodd y llong yn sych o Brains!!

Yn ôl â ni at fy ail loches ar fwrdd llong – y dec haul reit ar ben ôl y llong wrth y golau – pe bai raid i helicopter lanio. Mewn cornel fach yno roedd pwll ymdrochi. Na nid nofio gan mai dim ond deuddeg troedfedd sgwâr ydio ond yn werth pob dropyn dŵr môr ynddo pan fo haul poeth yn tywynnu arno ni. Yno y ces i lonydd i ddarllen llyfr 'Jenny Lee', 'My Life with Nye' – o hyn ymlaen pan fyddai'n clywed enw naill enu'r llall mi fyddai'n meddwl nid am y Blaid Lafur na'n system iechyd gynlluniodd o ond am eu bywydau Cydwladol llawn yn rhoi lloches ymarferol i laweroedd o bobl o bob rhan o'r byd – ag mi fyddai'n teimlo gwres yr haul Caribi arnai ar ddec y Geest Port – ag wrth imi godi fy llygaid o'r llyfr yn gweld ôl lle bûm yn y môr. Do mi feddyliais droeon am Twm Huws o Ben y Ceunant a Roli bach i frawd ag fel hwythau – yn ol i'r Felinheli rwyn mynd co bach o ho ag er yr holl chwilio weles i yr un môr forwyn na llanc ar fy nhaith – tro nesaf efallai, hwyl.

# Undeb y Gair

**Daeth pobl o sawl ffrwd ym mywyd Cymru ynghyd i ddathlu cychwyn newydd i Undeb y Gair yng Nghymru ddydd Sadwrn diwethaf.**

Mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Marc, Gabalfa, Caerdydd, comisiynwyd Siôn Aled fel Trefnydd Cenedlaethol cyntaf Undeb y Gair yng Nghymru, ac Alan Rees fel gweithiwr ysgolion. Lleolir y swyddfa genedlaethol newydd yng Nghaerdydd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg, a bu'n gyfle i lawer o bobl ddi-Gymgaeg i roi cynnig ar ganu yn yr iaith am y tro cyntaf.

"Ers 123 o flynyddoedd mae Undeb y Gair wedi bod yn edrych ar anghenion cymdeithas ac yn ymateb iddynt," meddai Cyfarwyddwr Cyffredinol Undeb y Gair, David Cohen.

Bu gwaith Undeb y Gair yng Nghymru hyd yn hyn gan fwyaf yn Saesneg. Gobeithia Siôn Aled ymateb i anghenion siaradwyr Cymraeg a Saesneg, a bu'r "ymateb rhyfeddol a'r ewyllys da" oddi wrth y ddwy garfan yn galondid iddo. Drwy ei waith blaenorol yng Nghymru gyda Chymdeithas Genhadol yr Eglwys ffurfiodd gysylltiadau gydag eglwysi o nifer o draddodiadau gwahanol.

Ymhlith eraill fu â rhan yn y gwasanaeth oedd y Parch Elwyn Davies (Llywydd Anrhydeddus Mudiad Efengylaidd Cymru), Culain Morris (Cadeirydd Pwyllgor Llywio Undeb y Gair, Cymru), ac Arfon Jones o'r Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru.

Mae yna fudiadau Undeb y Gair mewn can gwlad a bu un o'r cyfarfodydd cyntaf ar draeth yn Llandudno ym 1868. Mae Undeb y Gair yn fudiad byd-eang o Gristnogion sydd am gyhoeddi Newyddion Da Duw i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

## LLONGYFARCH

Croeso I Nanw Gwenllian, merch fach Catrin a Gari Beard. Llongyfarchiadau, Catrin a Gari ac wrth gwrs i Mari, y chwaer fawr. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

## EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Y Sul | Oedfa'r Bore | 10.00 |
| | Ysgol Sul | 11.30 (Plant ac Oedolion) |
| | Oedfa'r Hwyr | 6.30 |

Nos Fawrth (yn ystod tymor yr ysgol) Clwb Cristnogol i'r Plant am 6.00.
Nos Fercher Cyfarfod canol wythnos am 7.30 yn nhai aelodau.

## DYDDIAD COPI RHIFYN CHWEFROR

**11 – 01 – 91**

# HEL MEDDYLIAU

**Meddai Gwenallt yn ei gân 'Y Calendr'. Nid darn o bapur a chardbwrdd, felly, yw calendr ond mae'r hoelen yn dal y Newyddion Da Cristnogol a byddant yno ar hyd y flwyddyn – newyddion da bob dydd o'r flwyddyn!**

Rhif y flwyddyn ar y calendr, wrth gwrs, sy'n gwneud y gwahaniaeth i gyd oherwydd rhaid rhoi "Oed Crist" ar ôl 1991 fel ar ôl pob blwyddyn o'i blaen a phob blwyddyn ar ei hôl.

"Byddai ein dyddiaduron a'n
calendrau ni heb y Crist a'i Apostolion
yn foel
Cerdd eu traed tragywydd ar eu
misoedd hwy . . ."

meddai'r Bardd Cristnogol.

O gofio pobl bwysig a oedd yn byw adeg geni Iesu, onid rhyfedd nad "1991 Oed Herod" neu "1991 Oed Pontius Pilat" yw eleni. Digwyddodd gwyrth a "1991 O.C." a geir, nid "1991 O.H." neu "1991 O.P.P." A dyna pam y cyfrifir y flwyddyn hon – a phob un arall – yn "Flwyddyn o Ras" gan Gristnogion.

Heb i chi fod yn Gristion, beth wnewch chi o'r rhif 'na ar y calendr newydd sydd yn "hongian ar hoel" dwedwch.

**"W"**

A dilyn y patrwm ar ddechrau **"Llyfr Emynau y Methodistiaid a'r Wesleaid"** sy'n talfyrru enwau yr emynwyr i'w prif lythrennau yn unig – "E.P." am Edmwnd Prys, "A.G." am Ann Griffiths ac ati – "W.W." ddylai fod dan emynau Pantycelyn. Ond yr "W." unig a geir ac mae honno'n ddigon gan mai un Williams oedd ac un Williams sydd.

Pechod anfaddeuol fyddai peidio â sôn am Williams y mis hwn a'r flwyddyn hon a ninnau'n cofio daucanmlwyddiant ei farw eleni. Ionawr 11, 1791 oedd y diwrnod du.

Gyda llaw, wyddoch chi sawl "William Williams" sydd yn **Y Bywgraffiadur Cymreig?** Rhifais 22 ohonynt, yn cynnwys "Caledfryn", "Gwilym Cyfeiliog", "Carw Coch" a "Y Lefaid!" Ond ni chafodd yr un ohonynt ei nabod â'r un lythyren "W." ond Pantycelyn.

Bu farw, fel y dywedais, ar Ion.11, 1791 ond mae mor fyw ag erioed yn ein heglwysi a'n capeli oherwydd fe genir ei emynau bob Sul o'r flwyddyn. Gwneir hynny eleni eto ac nid oes angen proffwyd i ddweud mai felly y bydd y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn – wel, tra pery'r Gymraeg.

Sawl un sy'n gwylio "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" a ŵyr mai Williams biau'r geiriau? Gallasai Pantycelyn awgrymu llawer o bethau eraill i awdurdodau S4C pe bai'n fyw yn y cnawd!

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn, mae'n dda cofio fod gan Bantycelyn ddiddordeb byw ym myd amser – a thu hwnt i fyd amser yn wir. Dyma enghreifftiau o'i ddiddordeb mewn munudau, oriau, dyddiau a – ie – tragwyddoldeb!:

(i) "Mi gefais mwy mewn *munud* gan lachawdwr hael Nag oeddwn i yn ei feddwl fod ganddo ef i'w gael . . ."

(ii) "*Awr* o'th bur gymdeithas felys, *Awr* o weld dy wyneb pur . . .",

(iii) "Fe welir y *dyddiau*, fy Arglwydd a'i gŵyr Pan darddo goleuni yng nghysgod yr hwyr . . ."

(iv) "*Tragwyddoldeb!* mawr yw d'enw, Ti mae'n ddiau yw fy lle . . ."

Mae gan Williams fwy i'w ddweud wrthym nag unrhyw galendr, pa mor bwysig ac angenrheidiol yw hwnnw.

**Huw Ethall**

# DYDDIADUR Y GWEINIDOG

**"Y mae'r Efengyl yn hongian ar hoel"**

## DYDD SUL, 11 TACHWEDD . . .

Deffro a chodi ym Mro Dawel, Cerrigman, Penysarn ger Amlwch – cartref rhieni Eirian. Tad Eirian yn gadael cyn 9 gan ei fod yn gwasanaethu yn Armenia, Caergybi. (MC) Wedi cael golwg ar Flwyddiadur Henaduriaeth Môn, penderfynu teithio ychydig filltiroedd i gapel paradwys, Llanallgo, ger Moelfre. Oedfa'r bore am 10 a'r Parchg Ddr Gwilym H Jones, Llansadwrn, yn gwasanaethu. Ar Sul y Cofio neu Sul Heddwch, 8 o blant yn dweud adnod neu bennill yn cynnwys y gair 'milwr'! Eu hanner nhw'n adrodd y pennill cyfarwydd hwnnw: "'Rwyf finnau'n filwr bychan, yn dysgu trin y cledd, i ymladd dros fy Arglwydd yn ffyddlon hyd fy medd." Darn o hen wal Berlin yn nwylo'r pregethwr fel rhan weladwy iawn o'i neges am gymod yr efengyl.

Mwynhau cinio dydd Sul llawer cynt nag arfer cyn cychwyn ar ein taith 200 milltir ychydig funudau cyn 1. Siario'r gyrru gan dorri'r daith drwy aros yn Rhaeadr am 20 munud. Nôl adref erbyn 6.20 wedi treulio 5 awr union ar y ffordd. Cael golwg ar 'Songs of Praise' – nid yn aml y digwydd hyn ond wedyn y patrwm arferol o wylio Dechrau Canu ac Anest.

## DYDD LLUN, 19 TACHWEDD . . .

Dyw hi braidd byth yn rhy hwyr mewn bywyd i newid hen arferion a cheisio cychwyn ar rai gwell – codi ¾ awr yn gynt nag arfer a mynd mas am dro ½ awr cyn brecwast! Treulio bore Llun arall yn y Cyngor Alcohol yn Heol Albany – yr Eirian arall, (Rees), Sharon, (ysgrifennyddes) a fi o amgylch yr Amstrad yn diwygio a gwella ein llyfryn diweddaraf, 'Pwff Bach Arall?' Dyma beth fydde anrheg Nadolig amserol i berson sy'n ymdrechu i roi'r gore i'r arferiad o smygu! – ac yn rhad iawn am ond 30 ceiniog!

Gyda'r hwyr i lawr â ni i Theatr y Sherman i wylio Cwmni Theatr Gwynedd yn perfformio 'Leni' – stori am ddigrifwr clwb nos sy'n cael gwybod nad oes ganddo ond 6 mis ar ôl i fyw. Meddwl bod perfformiad John Ogwen fel y prif gymeriad, sef Leni, yn ysgubol. Dim disgwyl yn naturiol i glywed rhai o'r cymeriadau yn siarad Cymraeg glasurol – ond mae 'na rywbeth ynof sy'n adweithio pan glywaf ormod o regi ac iaith aflan yn Gymraeg!

## DYDD MAWRTH, 27 TACHWEDD . . .

Dal wrthi ers 8 diwrnod! – mas am dro yn foreol drwy gaeau Ysbytai'r Eglwys Newydd a Felindre. Ymlacio yn y bath drwy wrando ar sgwrs hynod o ddifyr rhwng Eurig Wyn a Beti George ar Radio Cymru. Fel mae rhai'n credu – plant gweinidogion yw'r gwaethaf wastad!! Cymryd fy sedd o flaen y teledu rhwng 3.15-3.30 i wylio Margaret Thatcher fel Prif Weinidog yn ateb cwestiynau yn y Senedd am y tro olaf.

Galw yn nhŷ fy rhieni a chlywed fod y goelbren wedi disgyn ar John Major. Lan â ni i Noddfa Ynysybŵl i groesawu Cymdeithas Nos Fawrth Y Tabernacl Caerdydd. Y festri'n llawn ac aelodau'r gymdeithas dan arweiniad siriol a glas (!) Rhian James yn cyflwyno rhaglen 1¼ awr amrywiol o ganu ac adrodd ac ambell eitem unigol. Llinos Lauder yn cyflwyno'r diolchiadau trwy gyfrwng 'beirniadaeth' ganmoliaethus ar y diwedd! Mins pei a chwpaned o de i bawb. Os oeddech yno, wel dyna drueni na wnes i droi'r gwres canolog i ffwrdd rhyw awr a mwy yn gynt!

**GED**

**CYDYMDEIMLAD**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gareth Whelan a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth diweddar.

# SAFBWYNT

Pa mor dda ydych chi yn nabod Caerdydd? Pa Gaerdydd? meddech chi, oherwydd y mae llawer gwedd i'r ddinas. Caerdydd yr Amgueddfeydd, Caerdydd y Gyfraith, gyda'r llysoedd newydd wyneb yn wyneb â'r carchar! Caerdydd y capeli a'r eglwysi Cymraeg, Caerdydd y bwytai gwahanol, Caerdydd yr ysgolion Cymraeg, Caerdydd y sefydliadau addysg uwch, Caerdydd y Swyddfa Gymreig . . . yn wir, mae'r haenau gwahanol yn rhyfeddol. Wrth gwrs, y mae amryw o'r gweddau yna yn gorgyffwrdd, ac amryw ohonoch yn cerdded yn rhwydd a gwybodus o un i'r llall. Y mae un nad ydw i wedi ei enwi eto, *Caerdydd y bywyd nos*. Fi yw'r ola i sôn amdano, oherwydd dwn i ddim amdano, a llai o awydd fyth i dreiddio i'r adnabyddiaeth ohono. Eto, ni ellir wneud un bwndel o fywyd nos y ddinas. Mae rhai sy'n gorfod gweithio'r nos, mewn ysbytai, ateb y ffôn, gyda'r frigad dân, yn y swyddfa bost a'r heddlu, ac y mae arnom ddyled iddynt am eu gwasanaeth. Yn wir, fydde'r dydd ddim yn cerdded mor rwydd i'r rhan fwyaf ohonom onibai am waith y rheiny. Dyna'r ochor dderbyniol i fywyd nos y ddinas. Ma na ochor arall. Rhai sy'n cysgu mas, be bynnag ydi'r rheswm am y ffaith eu bod yn ddigartre. Llawer ohonynt yn rhai ifainc, ar eu cythlwng. O blith y rheiny y mae nifer o rai sy'n gaeth i'r botel neu gyffuriau. Hen stori, mor hen â'r Mab Afradlon, meddech chi, y tristwch yw fod mwy a mwy yn cerdded y gwter y dyddiau hyn a hynny oherwydd diod, nag a gafwyd erioed o'r blaen.

Synnais pan ddeallais fod yna saith a deugain o glybiau nos yng nghanol y ddinas, yn damsang ar gyrn ei gilydd. Y mwyafrif llethol ohonynt â thrwydded i werthu diod hyd ddau o'r gloch y bore, y lleill â thrwydded hyd ddeuddeg ac un. O gofio fod y ddeddf yn caniatau ugain munud o amser iddynt ar ôl amser cau fel y gallant orffen eu diod, y mae'n dilyn nad yw'r clybiau yna'n gwagio hyd hanner awr wedi dau neu dri o'r gloch y bore. A dyma'r ffaith syfrdanol, pan fyddant wedi cael noson brysur, ac y mae hynny yn reit aml, *bydd tua un fil ar ddeg* yn disgyn ar strydoedd canol y ddinas. Rhai ohonynt wedi cal gormod, llawer ohonynt wedi yfed tipyn, y sefyllfa yn un aeddfed i wrthdaro a rhyfel cartre. A chofiwch y mae na gigfrain sy'n hofran o gwmpas ac yn synhwyro cyfle i ddisgyn a phigo a chreu ffeit. Mae'r math yna o sefyllfa yn gwbl ddieithr i'r rhan fwyaf ohonom, ond y mae 'na rai sy'n gorfod wynebu'r giwed alcoholig na, a'r heddlu yw'r rheiny. Hawdd deall fod yr heddlu yn poeni am y sefyllfa, ac yn wir, yn cael y cyfryw sefyllfa yn berygl bywyd iddynt. Mae ymosodiadau ar yr heddlu ar gynnydd a does ryfedd eu bod yn ceisio dwyn perswâd ar yr ynadon i fod yn fwy gofalus gyda thrwyddedau. Mae'r rheiny, yn ôl a ddeallaf, wedi mabwysiadu polisi newydd, sef, nad ydynt yn rhoi trwydded i neb tu hwnt i un o'r gloch y bore. Odi hynna yn mynd i helpu? Oni ddylen dorri yn ôl ar oriau llawer o'r clybiau? Does dim amheuaeth o gwbl nad yw'r ynadon ledled y wlad wedi bod yn rhy barod i ganiatau trwyddedau i bob math o sefydliad. Y gyfraith oedd yn caniatau peth fel hyn a phan y caech chi ambell fainc oleuedig . . . ie, ambell un brin, ac yn meiddio gwrthod cais, pan ai'r un a wrthodwyd i apêl, gam amla byddai'r llys hwnnw yn caniatau. Rwyn ofni, a dyma fi'n siarad yn awr o hir brofiad, fod ynadon wedi bod yn ufudd weision i'r gyfraith ac nid yn llais i gydwybod ac angen cymdeithas. Ac fe ellir pwyntio bys at ynadon Caerdydd am iddynt greu sefyllfa yng nghanol y ddinas sy'n bergyl bywyd. Dyw e o un cysur i ddweud fod y sefyllfa'n debyg yn Nghasnewydd ac Aberdâr. Yn wir, clywais ddweud ei bod yn hunllefus yno ar adegau. Naw-ar-hugain o glybiau ar agor hyd yr oriau mân, ac fe dorrwyd, yn ôl a ddeallaf, wrth hanner can mil o ffenestri yn y dre. Ac y mae'r heddlu'n ymgyrchu'n gryf i geisio adfer cymeriad Aberdâr. Pob lwc iddynt!

Ac wrth fy mod yn paratoi yr erthygl yma, pennawd fras yn y Western Mail, *"Canolfan i groesawu y rhai sy' â phroblem diod"* Yn ôl yr erthygl y mae deng mil yn Ne Morgannwg yn gaeth i'r botel. Y gwir yw fod y ffigiwr dipyn yn uwch. A chaniatau y ffigiwr o ddeng mil, mae'n codi braw ar rywun. Y mae pob un ohonynt â theulu, o ryw fath. Llawer ohonynt yn gyrru ceir ac mewn swyddi cyfrifol. Ac fe erys y ffaith, chewch chi ddim alcoholiaeth heb alcohol, mae mor syml â hynna, ac y mae'n dilyn, po fwya o gyfleusterau mwya 'n y byd o rai sy'n cael eu caethiwo. Mae'n gwbl ofynnol i ddwyn rheolaeth ar y fasnach a dyna pam y mae rhywun yn croesawu troedigaeth, ddiweddar, mae'n wir, ynadon Caerdydd. Diolch eu bod wedi dihuno ar ôl cael shiglad deidi gan yr heddlu. Does ond gobeithio y bydd iddynt ddihuno'n llawn i'r niwed mawr sy'n digwydd a bod ganddynt hwy gyfle i wneud rhywbeth i atal y drwg.

**– T J Davies**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN CHWEFROR**
**11 – 01 – 91**

## CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

Profodd ail gyfarfod y tymor newydd lawn mor fywiog a diddorol â'r noson agoriadol.

Y wraig wadd y tro hwn oedd Mrs Owenna Hopwood, a roddodd sgwrs ddiddorol dros ben ar "Hel Achau". Cafwyd ganddi gyfarwyddiadau manwl am y ffordd i fynd ynghyd â'r gwaith dyrys hwn, ac enynnodd awydd ynom i fentro ar y dasg.

Ond uchafbwynt ei hanerchiad oedd yr hanes cyffrous am ei hymchwil maith a thrylwyr hi ei hun i ddarganfod ei gwreiddiau. Llwyddodd i'n mesmereiddio wrth olrhain ei thras o Gernyw, drwy ardaloedd Caerfyrddin a chanolbarth Ceredigion i Fro Helygen yng Nghlwyd (gan ddilyn canolfannau y gwaith plwm, mae'n debyg, a fu mor bwysig yn y lleoedd hyn). Cawsom nid yn unig ddyddiadau a ffeithiau moel am ei chyndeidiau, ond hefyd storiau bach diddorol a oedd yn rhoi cnawd ar yr esgyrn, a'n synnu gan drylwyredd ei hymchwil, a'i brwdfrydedd heintus.

Mynegwyd diolch a gwerthfawrogiad y cwmni gan y cadeirydd, Mr. E. Wyn James (ein llywydd am eleni) a Mrs. Lyn Osborne, a chroesawyd rhai aelodau newydd i'n plith.

Edrychwn ymlaen yn awr at ein cyfarfod nesaf ar Ragfyr 14eg, pan ddaw disgyblion Ysgol Melin Gruffydd (yn ôl eu harfer, bellach) i'n diddanu a'n paratoi at y Nadolig.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Hywel Gwynfryn ac Anya ar enedigaeth merch fach, ac Anya fydd hithau hefyd.

## DIOLCH

Daeth cyfraniadau hael i law gan Eglwysi a Chymdeithasau'r Ddinas sef:

| | |
|---|---|
| Eglwys Annibynnol Ebeneser | £25 |
| Eglwys y Bedyddwyr, Tabernacl | £20 |
| Cymdeithas Dinas Powys a'r Cylch | £20 |
| Cymry'r Wenallt | £10 |

Diolch yn fawr iawn iddynt ac am gyfraniadau sylweddol gan Dr a Mrs. J. D. R. Thomas, Dr Meredydd Evans, Mrs. S. M. Evans a Mr. a Mrs. O. J. Rook.

Gobeithio y bydd y diolch yma'n atgoffa'r rhai sydd heb gyfrannu eleni i'n helpu cyn diwedd y flwyddyn ariannol i leihau'r bwlch rhwng ein derbyniadau a'n taliadau.


**HYSBYSEB**

GWERSI PIANO AC ALLWEDDELL DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GAN ATHRAWES BROFIADOL.

FFONIWCH CAERDYDD 755533

# 'Te i'r Di-Gartre'

'Ai ceidwad fy mrawd ydwyf fi?' Dyna, fe gofiwch, oedd cwestiwn Cain i Dduw wedi iddo ladd Abel ei frawd oherwydd cenfigen. A chwestiwn tebyg, dybiaf i, oedd ym meddwl Megan Davies, Caerdydd, bum mlynedd yn ôl pan soniodd gyntaf wrth Eleri, fy mhriod, a minnau am ei hawydd y roi 'te i'r di-gartre' yn festri'r Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr, ar yr Ais. Braint arbennig i ninnau fel aelodau Eglwys y Tabernacl fu cael bod yn gefn i'r fenter yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ac yn y cyswllt hwn carwn enwi un person yn arbennig a fu'n fawr ei ofal ar hyd y blynyddoedd am yr anghenus yn Ninas Caerdydd, sef ein diweddar Weinidog hoff, y Parchg Raymond Williams.

Y mae drysau festri'r Tabernacl ar agor felly bob prynhawn Sul gydol y flwyddyn i groesawu unrhyw yn sy'n awyddus i gael te, brechdanau a bisgedi, sgwrs a chwmni. Ac rwy'n pwysleisio 'sgwrs a chwmni'. Nid rhannu te a bwyd yw'r unig nod. Gwyddom fel y mae'r rhai sy'n dod atom yn mawr werthfawrogi pob caredigrwydd a chyfeillgarwch – clust i wrando cwyn a gair caredig o gysur.

Fel arfer y mae oddeutu hanner cant yn bresennol, ac ambell Sul lawer mwy. Yn ddelfrydol y mae'n dda cael o leiaf bedwar neu bum person (yn cynnwys, os yn bosibl, un dyn) i gynorthwyo, a gofynnir yn garedig iddynt fod yn gyfrifol am ddod â brechdanau a llaeth. Agorir y drysau am dri, ond disgwylir i'r gwirfoddolwyr fod yn y festri o leiaf hanner awr yn gynt er mwyn paratoi.

Am y flwyddyn neu ddwy gyntaf, aelodau'r Tabernacl yn unig a fu'n gyfrifol am y te. Ers tro bellach, fod bynnag, cawn gymorth gwerthfawr gan nifer o eglwysi Cymraeg eraill yng Nghaerdydd a'r cylch. A dyma gyfle i mi ar ran Eglwys y Tabernacl i ddiolch y ddiffuant iddynt am eu cymwynas. Mewn cyfnod pan fo cymaint o ddigalonni am gyflwr Crefydd yng Nghymru, dyma un enghraifft, ymhlith llawer, o Gristnogion yn ein plith yn ymglywed â'u cyfrifoldeb ac yn ymateb yn deilwng iawn.

Y mae'n gyfle hefyd imi ddiolch o galon i Megan am ei mawr ofal yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun. Bu hi am ddwy flynedd a hanner wedi hynny yn gwneud gwaith gwirfoddol (gyda'r VSO) yn Zambia. Y mae bellach yn ôl yng Nghaerdydd, ac ar ran holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* estynnwn groeso cynnes iddi hi a'i phriod, Andrew Bwembya, i'n plith. Yr un modd ein diolch cywiraf i Glyn a Diana Owen a fu'n gofalu'n ffyddlon am y 'te i'r di-gartre' yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Wedi diolch, dyma apêl garedig. Y mae mawr angen rhagor o wirfoddolwyr ar gyfer y rota ar brynhawn Sul. Dyna'r angen pennaf, ond onid ydych yn gallu cynorthwyo yn y modd hyn, a fuasech mor garedig ag anfon rhodd tuag at gynnal y gwaith (ee prynu siwgr a bisgedi). Dyma cyfeiriad i anfon yr arian, i gynnig eich enw fel gwirfoddolwr, neu i ofyn am unrhyw wybodaeth bellach:

Glyn a Diana Owen,
5 Maes yr Awel,
Radur. Tel 842604

Y mae, ysywaeth, fwy a mwy o bersonau yn Ninas Caerdydd heb waith na chartref sefydlog, ac yn eu plith nifer cynyddol o bobl ifanc. Â ninnau wedi dathlu tymor ewyllys da y mae neges arbennig i bob un ohonom yng ngherdd Eifion Wyn, 'Nadolig Llawen':

Boed lon dy lys
  Boed lawn dy wledd,
A chofia flys
  Yr hwn ni fedd.

**Robin Gwyndaf**

## TRWY'R POST

D I N E S Y D D

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF.


ENW ..............................

CYFEIRIAD ..............................

COD POST .................... DYDDIAD ....................

Amgaeaf siec am £5.00 i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

Ar gyfer!
Priodasau
(Eglwys neu neithior)
Cyngherddau, neu unrhyw achlysur sydd angen cerddoriaeth



Lynne Bassett

Y delynores yn ôl
yn ngwlad y gân

47 Malborough Road,
Penylan, Caerdydd
CF2 5BU
(0222) 492020
(nos) 770552

O'R PRIDD
ENVIRONMENTAL CONTRACTOR
GWEITHIAU YN YR AMGYLCHEDD

Andrew E. Dixey
10 Gellidawel, Rhydfelen,
Pontypridd
Morgannwg Ganol, CF37 5PR
☎ 0443 402091

Gwaith tir a choed,
Bach neu mawr yn cynnwys:
Ffensio, walio, plannu,
tocio a thorri.

THE GUILD OF MASTER CRAFTSMEN
CORPORATE MEMBER

# NAWDD O BWYS

**Bydd cytundeb partneriaeth chwyldroadol rhwng Adran y Gyfraith a Chyllid, Polytechnig Cymru a'r Cwmni o Gyfreithwyr o Gaerdydd, Leo Abse and Cohen yn cael ei arwyddo heddiw.**

Bydd Cyfarwyddwr Polytechnig Cymru, Dr John Davies a Duncan Bloy, Pennaeth Adran y Gyfraith a Chyllid, Henry Nyman, Prif Bartner, a Mark Dyson o gwmni Leo Abse and Cohen yn cydnabod yn ffurfiol y Gadair noddedig gyntaf yn y Gyfraith ym Mholytechnig Cymru, un o'r cytundebau nawdd cyntaf o'u bath yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain.

Mae Polytechnig Cymru a Leo Abse and Cohen yn bartneriaid naturiol fel yr esbonia'r Dr John Davies, Cyfarwyddwr Polytechnig Cymru:

"Mae Adran y Gyfraith wedi datblygu dros y degawd diwethaf i gynnig yr amrywiaeth ehangaf o astudiaethau uwchraddedig, rhagradd a phroffesiynol yng Nghymru ac wedi ei sefydlu i adlewyrchu anghenion academaidd a phroffesiynol y nawdegau a thu hwnt i hynny." Mae hyn yn arbennig o addas gan y bydd cwrs terfynol Cymdeithas y Gyfraith yn cael ei lansio yng Nghymru yn y Polytechnig ym 1991.

"Mae Leo Abse and Cohen wedi datblygu dros y deugain mlynedd diwethaf i gymryd ei safle presennol fel Practis Cyfraith Gyffredinol amlycaf Cymru. Mae'r practis hwn yn awr yn edrych ar anghenion y proffesiwn yn y nawdegau ac ymhellach ymlaen i'r 21ain Ganrif."

### Partneriaeth

Bydd y bartneriaeth hon hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o bractis cyfreithiol prysur ac anghenion cleientau, drwy gynnig cyfle i ennill gwir brofiad ymarferol yn swyddfeydd Leo Abse and Cohen i ganfod yn gynnar iawn y myfyrwyr hynny sy'n debyg o fod â'r mwyaf i'w gynnig fel cyfreithwyr dan hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

"Mae datblygu cysylltiadau gyda Leo Abse and Cohen yn ddatblygiad rhesymegol i Adran y Gyfraith, adran sy'n cynnig addysg gyfreithiol gyflawn" ychwanegodd Pennaeth yr Adran, Duncan Bloy.

Cymeradwyodd Mr Henry Nyman, Prif Bartner, Leo Abse and Cohen y cytundeb partneriaeth a dywedodd:

### Cant y Cant

"Rydym wrth ein bodd i gyhoeddi'n partneriaeth gyda Pholytechnig Cymru gan ein bod yn credu mai'r ffordd i gwrdd ag anghenion ein cleientau yw sicrhau bod gan gyfreithwyr y dyfodol yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn iddynt fedru wynebu her y dyfodol. Rydym gant y cant yn cefnogi'r newidiadau mawr mewn addysg gyfreithiol a fydd cyn bo hir yn cael eu cyflwyno gan Gymdeithas y Gyfraith ac yn benderfynol o gadw ein safle blaen yn amgylchedd yr addysg gyfreithiol newydd. Bydd y fenter newydd hon gyda Pholytechnig Cymru yn caniatáu i ni ganfod cyfreithwyr y dyfodol – y gorau sydd gan Gymru i'w gynnig.

# GADAEL COLEG

Bydd eleni'n flwyddyn arwyddocaol i ddau berson sydd a pherthynas arbennig a Choleg Sant Ioan, Caergrawnt. Mae'r coleg hwn yn dal cysylltiad clos â Chymru ac oddi ar y pumdegau cynnar fe ddatblygodd y cwlwm yn gryfach diolch i'r Dr George Guest. Wedi cyfnod o ddeugain mlynedd fel organydd a chorfeistr y coleg fe fydd yn ymddeol ddiwedd Medi.

Gadael y coleg eleni hefyd fydd hanes Jeremy Williams o Ddinas Powys a chynddisgybl o Ysgol Glantaf. Mae e yn ei bedwaredd flwyddyn yn coleg wedi graddio llynedd mewn cerddoriaeth. Enillodd ysgoloriaeth gorawl i Sant Ioan ac yn ystod ei dair blynedd felly fe gafodd gyfle gwych i feithrin ei ddawn leisiol.

Mae bod aelod o gôr Coleg Sant Ioan yn anrhydedd o'r mwyaf gan fod ei enw'n perarogli ym myd cerdd, diolch i lafur a gwaith eneiniedig George Guest dros y blynyddoedd.

Wrth ganu'n ddyddiol yn y gwasanaethau gan ymgafarwyddo ag amrywiaeth helaeth o gerddoriaeth fe aeddfedodd Jeremy nid yn unig yn lleisiol ond yn ei grebwyll cerddorol. Caiff aelodau'r côr, yn fechgyn ac yn fyfyrwyr, eu trin fel cantorion proffesiynnol. Mae'r safon yn aruthrol o uchel a than law'r Dr Guest dim ond y gorau wnaiff y tro.

Mae bri Jeremy bellach ar yrfa fel canwr a hawdd deall hyn o'i glywed a'i weld wrth ei waith yn y côr. Mae'n gaffaeliad mawr nid yn unig i'w rhan gyda'r baswyr eraill ond fel ysbrydolieth i'r côr cyfan.

Cawsom gyfle i'w weld dros benwythnos yr Adfent pan ddarlledwyd gwasanaeth arbennig y coleg ar Radio 3 a thrachefn i Ogledd America.

Elfen arall o'r pwys mwyaf mewn côr fel hwn yw disgyblaeth. Mae'r safon a ddisgwylir yn uchel dros ben y rhaid anelu ati yn ddi-feth. Mae hyn i gyd yn rhan o arfogaeth dda canwr fel Jeremy wrth iddo wynebu gyrfa y tu allan i furiau'r coleg.

Ar ôl iddo orffen eleni bydd wedi cael y fraint o fod dan ddylanwad cerddor a Chymro o argyhoeddiad. Rhwydd hynt i'r ddau.

# "Awn i'r Ysgol Sul"

**Yn ystod y Gwanwyn eleni daeth cynrychiolwyr ysgolion Sul y gwahanol enwadau ynghyd dan faner Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd i rannu profiad a chodi rhai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu.**

Gwelwyd bod cyfle i ddatblygu gweithgarwch yr ysgolion Sul yn wyneb y cynnydd sydd mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein plith.

Y cam cyntaf yw cryfhau a chadarnhau'r ysgolion Sul er mwyn eu gwneud yn fwyfwy effeithiol. Gyda hynny mewn golwg aed ati i drefnu bore o hyfforddiant ar gyfer athrawon ysgol Sul, ar fore Sadwrn, Medi'r 8ed yng nghapel Y Crwys. Daeth Mr Nigel Davies, trefnydd y Cyngor Ysgolion Sul yn y De atom, i gyflwyno'r gwahanol feysydd llafur, egluro natur a phwrpas y gwerslyfrau ac arddangos yr amrywiol ddefnyddiau lliwgar, deniadol a chyfoes sydd ar gael at wasanaeth yr Ysgol Sul.

Daeth cwmni da o bobl ynghyd gyda brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r gwaith. Bu trafod ar y meysydd llafur mewn grwpiau a theimlwyd bod perthynas agos a hapus rhwng yr ysgolion Sul yn bodoli. Calonogwyd y pwyllgor yn fawr gan yr ymateb ac y mae'n cynllunio ymlaen yn awchus – gweithgarwch gwyliau ar gyfer y plant yn y capeli, chwaraeon rhwng plant y gwahanol ysgolion Sul er mwyn iddynt nabod ei gilydd, datblygu grwpiau mam a'i phlentyn o fewn y capeli, a threfnu gwasanaethau ar y cyd.

Y mae'r ddeubeth olaf hyn eisoes ar y gweill gan y sefydlwyd grŵp mam a'i phlentyn ar y cyd rhwng Minny Street, y Crwys ac eglwys Dewi Sant, ac y mae sôn am eraill hefyd.

Trefnir gwasanaeth "Cristingle" (Goleuni'r Crist) yn eglwys Dewi Sant ar Nos Wener, Ionawr 11 am 6 o'r gloch. Daw plant yr ysgolion Sul ynghyd ar gyfer y gwasanaeth hwn – ac y mae croeso i chwithau hefyd.

Y mae'r pwyllgor – sydd â Mrs Gwenda Williams (eglwys Dewi Sant) yn ysgrifenyddes a'r Parch D Andrew Jones (Salem) yn gadeirydd iddo – yn ymwybodol iawn mai megis cychwyn ar ei waith y mae, a bod llawer eto i'w wneud.

Beth am uno gyda ni yn y gwaith? A oes plentyn gyda chi sy heb fod yn aelod o'r Ysgol Sul? A oes diddordeb gennych mewn hybu gwaith yr Ysgol Sul? Beth amdani?

**Dafydd Andrew Jones**

# Addunedau'r Fl

## Addunedau'r Flwyddyn Newydd

***Sally Brown . . .***

Bob blwyddyn rydw i'n gwneud yr un adduned – 'cadw fy 'stafell wely yn daclus', ond arôl tua wythnos mae fy ystafell fel cwt-mochyn (i ddefnyddio geiriau fy mam!). Am y ddwy flynedd olaf rydw i wedi gwneud adduned – 'Paid â phruyu cymaint o gylchgronau'. Ond dydy hyn ddim yn llwyddiannus chwaith. Yr unig adduned rydw i wedi llwyddo i'w chadw yw – 'Paid â chnoi dy ewinedd.

Wrth i'r flwyddyn newydd nesau, rydw i'n meddwl oes yna bwynt i'r addunedau hyn? Fy ateb i eleni yw NA!!

***Nia Williams . . .***

Dydw i byth wedi gwneud adduned ond am un. Chwe mlynedd yn ôl fe wnes i adduned ond ni chedwais yr adduned honno. Ar ôl wythnos roeddwn i wedi anghofio am yr holl beth. Dywedais wrth mam y byddwn i yn helpu llawer mwy o gwmpas y tŷ a hefyd cadw fy ystafell wely yn daclus, ond cyn pen dim roeddwn i wedi penderfynu nad oedd i mi.

***Sara Rees . . .***

"Ding Dong Ding Dong" dwylo Ben Mawr o'r diwedd wedi cyrraedd ei ffawd. Ar ôl trafeilio o gwmpas y cloc am un dydd cyfan, a'i ddwylo bach wedi blino. Mae'n amser i Ben Mawr orffwys am eiliadau yn barod i ddechrau blwyddyn newydd a llawer mwy o waith caled. Ydy Ben Mawr yn gwneud Addunedau blwyddyn newydd? . . . efallai.

Pawb yn chwerthin ac yn cusanu, pawb yn cael amser da a chanu "Blwyddyn Newydd dda i chi cael amser da yn y tŷ". Yn gyntaf un o addunedau'r flwyddyn, y llynedd a'r flwyddyn cynt yw i ddysgu'r gân. Llynedd diwethaf roeddwn yn mynd i geisio peidio canu a pheidio chwerthin a pheidio bwyta bwyd afiach. Wel rydw i wedi cael digon o Addunedau'r flwyddyn felly fy Adduned blwyddyn 1991 yw i beidio gwneud Addunedau'r flwyddyn.

***Claire Ryall . . .***

Dydw i ddim yn gwneud addunedau blwyddyn newydd oherwydd rydw i'n eu torri'n hawdd. Yn y gorffennol rydw i wedi gwneud un fel peidio â bwyta siocled yn gyson a pheidio â chnoi fy ewinedd. Ond yn syth i mi wneud yr adduned rydw i eisiau gwneud y gwrthwyneb.

***Rhiannon Stephens . . .***

Bob blwyddyn fel llawer o bobl eraill rwy'n gwneud nifer o addunedau blwyddyn newydd. Ond fel arfer dwy bron yn sicr ymhen mis fe fyddaf i wedi anghofio y cwbl amdanynt. Dyma rai byddaf yn eu gwneud eleni:

1. Trio dod ymlaen yn well gyda fy mrawd;
2. Helpu mam mwy;
3. Helpu pobl mewn angen;
4. Chwilio am waith dydd Sadwrn;
5. Cadw fy lloft yn daclus, a nifer o rai eraill. Ond er ybyddaf yn trio'u cadw ar yr ail o Chwefror dwy'n sicr byddaf wedi eu hanghofio yn llwyr.

***Alun Simpson . . .***

Fel arfer, nid ydwyf yn gwneud addenudau blwyddyn newydd oherwydd ni allai gadw unrhyw fath o adduned.

Mae'r rhestr o hyd fel hyn:

1. Gorffen cnoi fy mysedd;
2. Bwyta llai o siocled;
3. Helpu pobl hen dros yr heol;
4. Gwneud fy ngwaith cartref bob amser ac yn y blaen.

Ond nid oes neb yn cyflawni y tasgiau uchod oherwydd nid ydynt eisiau gwneud y pethau yma. Os ydynt eisiau cadw addunedau blwyddyn newydd, mae'n rhaid i ni wneud rhestr yr ydym yn mynd i gyflawni. Dylai rhestr onest fod yn debyg i hyn:

1. Gorffen edrych ar 'Neighbours';
2. Gorffen bwrw fy nghath;
3. Yfed llai o 'coke'.

Mae'r uchod yn wahanol i'r uchod oherwydd mae'r pethau yn rhywbeth rydw i wir eisiau cyflawni. Mae 'Neighbours' yn sothach pur dylai neb edrych ar y rhaglen. Ni ddyliwn fod yn greulon i fy nghath a yfed llai o gôc. Maent yn llawer fwy gonest na'r lleill.

***Helen Wilkins . . .***

Dydw i byth wedi gwneud adduned blwyddyn newydd, am fy mod i'n gwybod ei fod yn galed i'w cadw am fis heb sôn am trwy'r flwyddyn. Mae pethau fel peidio cnoi eich ewinedd yn iawn, ond mae gwneud addewid i weithio neu ymarfer offeryn am hanner awr y nos yn gallu bod yn amhosib i gadw.

***Rhodri Thomas . . .***

Dydw i ddim yn bwriadu gwneud unrhyw addunedau blwyddyn yma, ond rwy'n siwr bydd fy rheini yn ysgrifennu rhai drosto fi ee ½ awr ymarfer piano bob dydd, helpu Dad yn yr ardd.

***Ceri Hughes . . .***

Wrth ir flwyddyn newydd nesau rhaid imi feddwl am wneud addunedau. Rydwyf wedi bod yn gwneud addunedau i'r flwyddyn newydd bron bob blwyddyn ers yr ysgol gynradd, pethau bach fel gweithio'n galetach yn yr ysgol, helpu mam o gwmpas y tŷ. Y broblem yw nid wyf yn gallu eu cyflawni, methiant bob blwyddyn yw hi i gadw addunedau y flwyddyn newydd i mi.

***Esther Eckley . . .***

Roeddwn yn gwneud addunedau'r flwyddyn newydd o hyd pan roeddwn yn fach, ee peidio â bwyta siocled, ond doedd byth yn para yn hir iawn. Ond erbyn hyn anaml iawn byddaf yn eu gwneud. Mae mam weithiau wedi fy ngorfodi, er ei bod hi byth yn gwneud addunedau ychwaith.

***Bethan Winnard . . .***

Dydw i ddim yn meddwl bob unrhyw bwynt hyd-yn-oed meddwl am addunedau'r flwyddyn newydd, oherwydd dydw i ddim yn nabod unrhyw un sydd yn eu cadw. Ond, rydw i yn ei wneud am yr hwyl, dydw i wir ddim yn gwybod pam, ond, dyna ni. Dyma rai o'r addunedau rydw i yn bwriadu eu hysgrifennu (dydw i ddim yn credu byddaf yn eu cadw ond, dyna ni) a dyma nhw.

1. Rhoi £1 mewn i'r banc bob wythnos ar ôl Nadolig nes bod dim arian gen i ar ôl gartref.
2. Rydw i am weithio'n galetach yn yr ysgol.
3. Helpu mam a dad gan (i) olchi'r llestri, (ii) smwddio, (iii) glanhau ayyb.

***Rhian Taylor . . .***

Bob blwyddyn, rwy wedi gwneud adduned i beidio cnoi fy ewinedd, ond rwy o hyd yn torri fy adduned i.

Adduned arall mae pobl yn gwneud yw, i beidio sugno eu bysedd. Mae rhai pobl yn gwneud adduned i fynd ar ddeiat ar ôl Nadolig, yn y flwyddyn newydd.

***Delyth Samuel . . .***

Fel arfer bydd cadw adduned blwyddyn newydd yn dipyn o gamp i fi, ac felly o flwyddyn i flwyddyn yr un addunedau fyddan nhw, peidio â chnoi'n ewinedd neu rnaid gwneud ymarfer piano. Dim ond pethau bach di-bwynt fel yna oedden nhw oherwydd dydw i ddim yn meddwl fod gen i yr un bwriad o'u cadw nhw o gwbl yn y lle cyntaf, ond ddaeth dim drwg ohonynt. Efallai eleni fydd gen i rywbeth gwerth chweil i fod eisiau cadw.

# wyddyn Newydd

## Addunedau'r Flwyddyn Newydd

**1991**

***Nia Thomas . . .***

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd mam fydd yr unig un yn y teulu a fydd yn gwneud addunedau. Nid iddi hi'n unig, ond i bawb yn y teulu. Yn anffodus fy adduned i yw chwarae'r piano yn fwy cyson. Adduned, fy mrawd, yw adolygu fwy ar gyfer yr arholiadau yn lle chwarae golff trwy'r amser. Gan fod Bethan, fy chwaer fach i, yn rhy ifanc, hi ywr unig un a fydd yn cael ei harbed. Fel bob amser adduued dad yw ymlacio yn fwy cyson ar ôl diwrnod prysur o waith, a mam, yr un hen adduned, mynd ar ddeiet!

***Gemma Hanmer . . .***

Bob blwyddyn yr ydw i yn ceisio cadw fy addunedau blwyddyn newydd. Byddwn yn addo ymarfer fy offerynnau, ddim i fwyta gymaint o siocled a chadw fy ystafell wely yn daclus. Ar ôl tua pythefnos byddwn i wedi torri pob adduned a wnes i. Y cyfnod hira yr ydw i wedi cadw adduned yw mis.

***Geraint Jugessur . . .***

Dydw i byth wedi gwneud adduned blwyddyn newydd oherwydd mae'n dianc o fy nghof bob Nadolig. Byddai'n torrir adduned ar ôl tua phythefnos, ta beth. Nid oes neb yn fy nheulu i wedi gwneud adduned, mi wybod. Ni fydd neb yn gallu cadw rhw.

***Catherine Evans . . .***

Wrth i'r flwyddyn 1991 nesau med-dyliaf am fy addunedau. Beth fyddan nhw tybed? Bob blwyddyn ysgrifennaf yr un hen beth. Peidio cnoi fy ewinedd, helpu'r henoed a pheidio cweryla gyda fy mrawd. Ni fydd yr addunedau yn para am fwy nag wythnos neu efallau bythefnos. Wrth i mi drio meddwl beth fydd yr addunedau, meddyliaf am y rhai ysgrifennais, fel, peidio bwyta losin, ond ymhen ychydig, cerddaf i mewn i siop a phrynnu Mars Bar.

***Nicola Davies . . .***

Bob blwyddyn rydw i yn gwneud a thrio cadw fy neg addunedau blwyddyn am flwyddyn ond dim ond am wythnos yr ydwyf yn eu cadw. Bob blwyddyn mae miliynau o bobl yn adduenedu byddent ddim yn ymladd efo brawd a chwaer, Trio cadw'r loft yn dachlus, help mam a helpu pobl mewn angen. Fel un o'r miliynau yna dydw i ddim yn credu fod llawer o bobl yn cadw eu hadduneodau blwyddyn newydd, dydw i ddim yn sicr. Ar ôl wythnos rydw i wedi anghofio amdanyn nhw.

***Esyllt Davies . . .***

Mae gwneud addunedau bob blwyd-dyn newydd yn hen arferiad. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwneud un, ond ydyn nhw'n cadw nhw? Dyna gwestiwn arall! Popeth o stopio cnoi ewinedd i gael bath bob wythnos! Mae fy addunedau i yn para tua . . . ym . . . awr!? Fy hoff adduned i yw mynd ar ddeiet. Rydw i'n gwneud yn hollol i'r gwrthwyneb! A mam, mae hi'n bwyta fel mochyn ar ôl dweud ei bod yn mynd ar ddeiet. Syniad gwael yw'r addunedau 'ma.

***Branwyn Gwyn . . .***

Rydyn ni gyd, rwy'n siŵr, yn gwneud adduned blwyddyn newydd. Mae'n hen arferiad. Pethau fel colli pwysau, mynd i'r gwely'n gynt, codi'n gynt, stopio bwyta cig mae pobl fel arfer yn eu gwneud. Mae'r rhan fwyaf o bobol sy'n gwneud addunedau yn cadw atynt am ryw wythnos neu ddwy. Ond, 'sgwn i faint o addunedau'r flwyddyn newydd sydd yn cael eu cadw?

***Siân Thomas . . .***

Weithiau rydw i'n ysgrifennu fy addunedau yn fy nyddiadur. Rydw i'n ysgrifennu pethau fel fy mod i'n mynd i golli pwysau ayyb ond dydw i byth yn cadw atyn nhw. Dydw i ddim yn adnabod unrhywun sydd wedi cadw adduned neu yn meddwl ei bod hi'n bwysig i'w hysgrifennu nhw.

***Catherine Jones . . .***

Wrth i'r flwyddyn newydd nesau rhaid dechrau meddwl am syniadau ar gyfer fy addunedau. Yn y gorffennol rwyf wedi meddwl am syniadau fel peidio cnou fy ewinedd, peidio bwyta losin, rhaid cadw fy ystafell wely yn daclus.

# Clwb Pêl-droed Felinfach Enillwyr Cwpan Ewrop 2001/02

Faint wyddai trigolion Caerdydd am glwb pêl-droed Felinfach. Dim llawer mae'n siwr. "OK", beth am ofyn y cwestiwn; faint ohonoch chi sy'n gwybod lle mae Felinfach? Saif y pentref hyn yng nghanolbarth Ceredigion ac mae wedi dod yn enwog erbyn hyn am ddau beth. Yn gyntaf y ffatri loeth a wnaeth am flynyddoedd fod yn ganolbwynt yr ardal gan gyflogi rhan helaeth o'r trigolion lleol ac wrth gwrs cadw'r ardal yn Gymreig. Gwaetha'r modd nid yw'r ffatri yn bodoli rhagor, ond mae yno ddwy ffatri sy'n berchen i gwmniau preifat sydd wedi dod i ben a chadw'r Cymry yn yr ardal. Yn ail ar y rhestr yw'r theatr enwog sy' yno. Mae'r pantomein blynyddol yn atyniad i oedolion a phlant dros Gymru gyfan ertyn hyn a bron amhosib ydy cael tocyn mynediad iddo. Yn y theatr hon gwnaeth tri o sêr S4C ddod i amlygrwydd – Ifan Gruffydd (Ma' Ifon Ma'), Dennis Birch (Pierre yn Hafod Henri) a Dafydd Preron (Wyndham Bowen yn Pobol y Cwm gynt).

Ond nôl at hynt a helynt y clwb pêl-droed. Chwaraeodd Clwb Cymric gêm gyfeillgar yn erbyn y rhain yn 1975 fel rhan o her Adfer, efo'r 'Cymricians' yn mynd adref yn hapus y noswaith honno gan iddynt sgorio bum gôl, i dair a sgoriwyd gan y tîm cartref. Gweler adroddiad o'r gêm hen yn rhifyn Gorffennaf/Awst '75 o'r Dinesydd. Roedd gan y Felinfach chwaraewyr ag enwau go ryfedd yn disgleirio iddynt, Deinamo a Bem er enghraifft. Dai Davies oedd Deinamo, a ddaeth yn ddiweddarach yn ei yrfa yn reffari enwog yn y canolbarth. (Cafodd gynnig jobyn unwaith gan gwmni Staedtler oherwydd ei fod yn gwneud defnydd da o'i pensilau). Gôlgeidwad oedd Bom, sef Ifon John Davies, ac mae ei fab Mark yn aelod blaenllaw o'r tîm presennol.

Er i'r gêm a sonnir amdani gymryd lle yn '75, ni chafodd y clwb ei ffurfio'n swyddogol tan ddechreuad tymor 1980/81, er i dim "Mini-Miners" gynrychioli'r pentref am flwyddyn cyn i'r oeddolion fentro arni. Union fel y Cymric mae gan Felinfach ddau dîm hefyd. Un yn chwarae yn yr adran gyntaf a'r llall yn y drydedd o Gyngrhair Rowley Glazing Ceredigion. Creuwyd record gan y clwb yn y gyngrhair hon un ystod tymor '88/'89 gan iddynt guro ail dîm Gwili Rangers o ddrwch blewyn yn unig oddi cartref o 19-1. Sgorwyr yn y gêm fythgofiadwy honno oedd Neil Davies a Meirion Evans efo pump yr un, dau yr un gan Jason Jones a Ian Davies, efo Geraint Hawkins, Mark Davies, Steve Jones, Amlyn Ifons ac Eryl Evans yn rhwydo unwaith yn unig. Byddai'r sgôr yn lawer fwy, ond oedd bechgyn Felinfach ddim am "showan off" (dyna chi Gymraeg da) tu flaen i Terry Yorath a fynychodd y gêm. Oedd o ddim yno wrth gwrs, ond mae'n anodd gweld y gwahanioeth rhwng ail dîm Gwili a thîm cenedlaethol Cymru erbyn hyn, (er fel 'rwyf yn 'sgwennu mae Cymru newydd gwneud reial "Brussel Sprouts" o Wlad Belg. Da iawn bois).

Ond y peth mwyaf sy'n sefyll efo'r clwb yma ydy ei cymhariaeth efo Inter Milan. I ddechrau bant mae'r ddau glwb yn chwarae yn lliwiau glas a du, ac ambell dro pan mae crysau Inter yn cael eu golchi, mae Felinfach yn fwy na pharod i fenthyg eu crysau nhw iddynt. Engrhaifft arall o'r tebygrwydd nhw ydy bod Felinfach hefyd yn rhannu cae, fel mae Inter yn gwneud efo A.C. Milan yn Guiseppe Meazza, San Siro. Ynghyd â ffwtbol mae'r cystadleuthau rhedeg y carnifal blynyddol hefyd yn cael eu cynnal ar gae Stadio Comunale Bro Henllys. Cyn iddynt ddod i amlygrwydd efo Inter gwnaeth Walter Zenga a Jurgen Klinsmann ddod am dreial efo Felinfach ond yn ôl y rheolwr Dilwyn "Trapattoni" Jones, nid oedd un o'r ddau yn dod lan i safon trydydd tîm Felinfach hyd yn oed. Cofiwch nad oes gan Felinfach drydydd tîm.

Ar y fainc yn ystod y gêm rhwng y Cymric nôl yn '75 oedd Emyr Llew (athro bodhaol yn Aberaeron a chricedwr o fri, ac mae rhywun fel . . . um . . . Geoffrey Boycott rwy'n credu wedi gael ei gymharu efo fo un tro. Mab Emyr, Guto Llywelyn, ydy'r "Boss" arna i yn Llais Aeron, a gan mynd nôl at Inter Milan mae o yn fy atgoffa i o Helenio Herrera (rheolwr Inter yn ystod y chwedegau); Gwybod llawer am ei waith, ond yn un ofnadwy i weithio efo. Ond dyna fe, fy mhroblem i ydy honno.

Sut mae'r syniad o gael gêm gyfeillgar unwaith eto yn apelio at Glwb Cymric? Efallai gallwch chi drefnu rhywbeth yn y dyfodol a gobeithio fod yr erthygl hon yn eich ysgogi chi i ystyried y fath bosiblrwydd. Diolch i chi am ddarllen.

**E. Aled Jones**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN CHWEFROR**
**11 – 01 – 91**

# O Gwm Rhymni i Aberystwyth

**Bellach mae Swyddfa Eisteddfodau'r De wedi symud o Fargod i Aberystwyth sef cartref prifwyl 1992. Lleolwyd y swyddfa a'r siop mewn man amlwg yng nghanol y dref, sef yn 6 Y Stryd Fawr, Aberystwyth.**

Eisoes sefydlwyd yr is-bwyllgorau testunau ac maent wrthi'n ddiwyd ar hyn o bryd yn dewis ar gyfer y gwahanol gystadlaethau. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd wedi dechrau ar ei waith dan gadeiryddiaeth Dr. Brynley Roberts o Aberystwyth.

Yn frodor o Aberdâr ym Morgannwg Ganol, treuliodd gyfnod ar ôl gadael y coleg gyda'r Corfflu Cuddwybodaeth (Intelligence Corp.) fel cyfieithydd Rwsieg. Yn 1958 fe'i penodwyd yn Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac ar ôl cyfnod o ugain mlynedd yno treuliodd wyth mlynedd fel Athro'r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Abertawe. Penodwyd ef yn 1985 yn Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol ac mae'n parhau yn y swydd bwysig hon.

Yn 1989 fe'i anrhydeddwyd drwy ei ethol yn Llywydd Sasiwn y De Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac ef hefyd oedd ysgrifennydd Pwyllgor Dathlu Pedwar Canmlwyddiant Cyfieithu'r Beibl.

Nid dyma'r tro cyntaf iddo chwaith fod yn gysylltiedig â'r Eisteddfod Genedlaethol oherwydd bu'n gadeirydd isbwyllgor Llên Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982.

# DATHLU GŴYL SANTES DWYNWEN

Eleni eto, trefnir penwythnos gymdeithasol ar gyfer Cymry Cymraeg a Dysgwyr Profiadol i ddathlu Gŵyl Nawddsant Cariadon Cymru yn Nant Gwrtheyrn, pryd y ceir cyfle i:

- ddod yn hyddysg â hanes Dwynwen, Chwedl Rhys a Meinir a chariadon enwog eraill;
- glywed am y grefft o wneud Llwyau Caru;
- ymweld ag Ynys Llanddwyn;
- gyd-addoli mewn Oedfa arbennig;
- wrando ar y beirdd yn cyfansoddi;
- Ddawnsio Gwerin;
- swpera mewn gwledd arbennig;

Pris y penwythnos Ionawr 25-27, 1991 (heb Swper y Santes) fydd:

Llety Llawn – £69.80
Llety Hunan-ddarpar – £46.80
Aelod dyddiol – £20.00

Enwau i law erbyn: Ionawr 4
Ffurflen Gais ar gael o Swyddfa Nant Gwrtheyrn (0758 85 334/335).

## NOSON FAWR ANTHONY A GWILYM

**Roedd cofio dau o athrawon Cymraeg o ysgolion De Morgannwg yn achlysur dathlu'n ddiweddar. Daeth hanner cant o aelodau UCAC y sir i Glwb Ifor Bach i dalu teyrnged i Anthony Evans a Gwilym Roberts, dau o hoelion wyth bywyd Cymraeg y brifddinas. Ond nid yw'r naill na'r llall yn ymddeol o bell ffordd; yn hytrach, maent yn rhoi'r gorau i ddysgu plant.**

Mae Anthony wedi mentro fel darlunydd celfyddydol ac yn gweithio bellach mewn stiwdio yn Nociau Caerdydd. Bu'n ysgrifennydd sirol UCAC am ddeuddeg mlynedd – cyfnod sy'n adlewyrchu'i ddyfalbarhad ac ymroddiad i'r achos. Mae e'n un o sylfaenwyr, ac yn aelod blaenllaw, o Gwmni Drama'r Fuwch Goch (Clwb Ifor Bach) – grŵp mentrus a llwyddiannus iawn. Cyflwynwyd cartŵn lliwgar a dawnus ohono, gwaith Cen Williams, i ddangos gwerthfawrogiad aelodau UCAC.

Ar ddechrau'r noson, roedd Gwilym yn brysur gyda'i ddosbarth 'croesi'r bont', a chafodd é a'i ddisgyblion aeddfed sioc pan gawsant oll wahoddiad i ymuno ag aelodau UCAC yn lolfa'r clwb. Paratowyd bwffet gwych i'r noson gan Linda Moran a Catherine Jobbins ac roedd y dysgwyr a'r undebwyr yn amlwg wrth eu bodd.

Roedd y disgrifiad o Gwilym fel 'sefydliad' yn addas iawn wrth ystyried ei waith diddiwedd fel athro ysgol nos, arweinydd aelwyd, galwr twmpath dawns, cadeirydd sawl ysgol feithrin leol ac aelod sylfaenol a gweithgar o Fudiad Ysgolion Meithrin a Chlwb Ifor Bach, i sôn am rai o'i weithgareddau'n unig. Sut oedd e'n ymdopi i weithio bob dydd hefyd fel athro ysgol, Duw a ŵyr!

Gwobrwywyd Gwilym gydag ymbarel gwyrdd enfawr â dreigiau coch bychain drosto, yn symboleiddio ei ymgorfforiad o gymaint o agweddau blaengar o fewn y mudiad cenedlaethol. Aeth y noson ymlaen ac ymlaen a bydd llawer o sôn amdani am dipyn eto.



*Dulyn Griffith, Glenys Evans, Anthony Evans, Gwilym Roberts, Iorwerth Morgan, Jenni Jones – Annetts ac Owen John Thomas.*


# YSGOL GYMRAEG PENARTH

Yn eisiau – Clerc ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol uchod.
Am fwy o fanylion cysyllter a'r prifathro –
PENARTH 700262


# ABER

**Trefnwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau yn ddiweddar gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth.**

Nos Wener Tachwedd 9ed, traddodwyd darlith ar '1992 and all that' gan Aneurin Rhys Hughes, sy'n aelod o'r Gymdeithas ac yn Gyn-Lywydd o Undeb Myfyrwyr CPC ym 1960/61. Mr Hughes yw Llysgennad y Comisiwn Ewropeaidd i Oslo, a bu'n Chef du Cabinet i Ivor Richard am 4 mlynedd. Mae ef mewn safle ddelfrydol i roi barn bersonol ar y cyfleoedd y bydd y Gymuned a'r Farchnad Sengl yn eu cynnig i Gymru.

Roedd hi'n anrhydedd i Gangen Caerdydd o'r Gymdeithas bod Aneurin wedi aros yng Nghaerdydd i fynychu'r Cinio Blynyddol, a gynhaliwyd y noson wedyn yn Neuadd Aberdâr, drwy ganiatâd caredig y Warden, Miss Joan Buckingham. Prif westeion y Llywydd, Mr Alun Daniel, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Awdurdod Datblygu, oedd Mr Winston Roddick CF a Mrs Roddick, a Mr Stephen Lawrence, Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu yn CPC Aberystwyth a Mrs Lawrence.

Disgrifiodd Mr Lawrence ei swydd newydd gyda chryn frwdfrydedd gan roi dirnadaeth o'r her mae'r Coleg yn ei wynebu yn y 1990au. Bu Winston Roddick yn diddanu aelodau a chyfeillion gydag araith ddifyr a oedd hefyd yn cynnwys sylwadau ar y Mesur Iaith hir-ddisgwyliedig.

## ◆ ◆ ◆ 1992 ◆ ◆ ◆

Ymhlith y digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd, mae Cinio Calan Hen a Darlith Gymraeg Flynyddol Llandaf.

Yn dilyn cinio llwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentre Llandaf ddechrau'r haf i godi arian i Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, mae'r Gymdeithas wedi trefnu Cinio Calan Hen yn y neuadd ddydd Sul Ionawr 20fed am 12.30.

Traddodir Darlith Gymraeg Flynyddol Llandaf eleni gan Gwyn Erfyl o dan y testun "Ffordd o weld". Cynhelir y ddarlith yn Neuadd Ysgol Howell, Llandaf nos Wener 15fed o Chwefror am 7.30.

Mae croeso cynnes i bawb i'r ginio ac i'r ddarlith, ac mae'r mynediad drwy docyn yn unig. Am fanylion pellach a thocynnau, cysyllter â Dilys Wynne Lloyd, 182 Ffordd Caerdydd, Llandaf (Ffôn: 562154).

# Y Llanc o Lan Conwy

A fyddech mor garedig â chaniatáu imi roi gwybod i ddarllenwyr eich Papur Bro fod fy llyfr diweddaraf, Y LLANC O LAN CONWY, yn awr ar werth.

Ei gynnwys yw hanes y meddyg a'r naturiaethwr John Williams (1801-59), awdur FAUNULA GRUSTENSIS (1830), sef y llyfr sy'n astudiaeth o holl blwyf Llanrwst.

Cyflwynaf grynhoad o gynnwys y llyfr hwnnw, hanes cyfnod John Williams yng Nghorwen, ei daith i chwilio am aur yng Nghaliffornia a'i hanes pan oedd yn byw yn Froncysyllte, Wrecsam a'r Wyddgrug.

Cyhoeddaf y llyfr ar fy nhraul fy hun, a'i bris yw tair punt (£3).

Dim tâl cludiad i ddarllenwyr eich Papur.

**Carey**

# 60 Croesair Cymraeg

*gan Gwyn Lewis Davies*

Difyrrwch Cadair Freichiau
Dros y Dolig!

Mae'r awdur yn hen law ar gyfansoddi croeseiriau – bu'n cyfrannu un yn fisol i'r papur bro *Dinesydd* ers blynyddoedd. Dyma gasgliad o 60 ohonynt (ynghyd â'r atebion!)

Yn ôl Shân Emlyn, golygydd y *Dinesydd*:

"Tystia llawer mai ei groeseiriau ef yw'r rhai gorau yn y Gymraeg . . . Y mae ei wybodaeth a'i ddiddordebau yn eang ac adlewychir hynny yn y cliwiau."

128 tudalen; Pris: £2.50

**LLONGYFARCH**

Llongyfarchiadau i Catrin a Gari Beard ar ddyfodiad Nanw Gwenllian, chwaer fach i Mari. Y ddau deulu, yn Llysfaen a'r Bynea wrth eu bodd.

**LLONGYFARCH**

Llongyfarchiadau i Eirudd a Pedr Hupfield, y Beddau ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Siôn Philip ar 10 Tachwedd yn Ysbyty'r Waun. Hoffai cydweithwyr Eirudd yn yr Uned Gyfieithu ac Adran Addysg y Swyddfa Gymreig ddymuno'n dda i'r tri.

"Tyfed ef yn sŵn iaith ei fro,
Tafodiath bêr Sir Benfro"

# YN CAEL TEGWCH?

**Ydy'r dall a'r rhannol ddall yn derbyn sylw digonol yng Nghymru? Ydyn nhw'n cael chwarae teg neu ydyn nhw'n colli allan am fod eu anghenion yn cael eu hanwybyddu? Dyma'r cwestiynau a fydd yn cael eu codi mewn astudiaeth newydd cyhoeddwyd (Ddydd Llun, Tachwedd 19) gan Gyngor Defnyddwyr Cymru (CDC), yn eu hadroddiad pedwar mis diweddaraf.**

Bydd yr astudiaeth, a fydd yn cael ei chynnal y 9 mis nesaf, yn edrych ar y math o broblemau y bydd y rhai â nam er eu golwg yn eu wynebu wrth fyw o ddydd i ddydd mewn byd pobl sydd yn gweld. Fe fydd yn edrych a ydy'r gwasanaethau a'r nwyddau y maent yn eu derbyn yn addas i ateb eu gofynion arbennig hwy.

Esboniodd Rhiannon Bevan, Cadeirydd CDC, pam fod angen astudiaeth o'r fath:

"Mae'n bryder i ni mai pur anaml y caiff anghenion pobl ddall a rhannol ddall eu hystyried. Mae hyn yn golygu bod hyd yn oed cyflawni tasgau "cyffredin" o ddydd i ddydd fel siopa, defnyddio cludiant cyhoeddus a chael gafael ar wybodaeth hanfodol yn aml yn dasg amhosibl heb help rhywun arall.

"Mae'r gallu i fyw yn annibynnol a sicrhau dewis i'r defnyddiwr yn bwysig dros ben. Mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn sicrhau bod anghenion y dall a'r rhannol ddall yn cael y sylw angenrheidiol."

Fe fydd pobl sydd â nam ar eu golwg yn chwarae rhan allweddol yn yr ymchwil. Fe fyddan nhw'n cael eu cyfweld ynglŷn â'r profiadau a'r problemau sy'n gyffredin iddyn nhw. Er enghraifft:

- sut mae person gyda nam er ei olwg yn defnyddio archfarchnad? Ydy e'n cael ei orfodi i ddefnyddio siop y gornel lle mae prisiau'n uwch, ond lle mae'n gallu dibynnu ar wasanaeth personol a'r help y mae ei angen?
- sut mae'r rhai sydd â nam ar eu golwg yn llwyddo i gael gafael ar fanylion am amserau a gwasanaethau bysus, neu wybod pa fws sy'n cyrraedd wrth yr arhosfan.
- sut mae'r rhai sydd â nam ar eu golwg yn dod i ben â'r ffurflenni a'r wybodaeth am dreth y pen, neu gyda biliau trydan neu nwy?

Fe ofynnir iddynt beth mae'n nhw'n ei feddwl y gellir ei wneud o ran cynllunio gwasanaethau a chynllunio adeiladau a mannau cyhoeddus i wneud bywyd yn haws iddyn nhw.

Fe fydd prosiect CDC hefyd yn bwrw golwg fanwl dros y cymhorthau a'r gwasanaethau hynny sydd wedi cael eu dyfeisio'n arbennig ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu golwg – pethau fel llyfrau print bras, sbectolau, chwyddwydrau a dyfeisiadau mesur lefel dŵr yn ogystal â llyfrgelloedd tapiau a braille. A oes digon o'r pethau hyn ar gael ac ydy'r deillion a'r rhannol ddall yn cael clywed amdanyn nhw, a sut i gael gafael arnyn nhw?

Gan amlinellu amcanion prosiect hwn meddai Rhiannon Bevan:

"Mae lle i wneud llawer i wella byd y rhai sydd â nam ar eu golwg. Rydym ni'n gobeithio y bydd ein prosiect yn llwyddo i dynnu sylw at eu problemau fel defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau bob dydd.

"Amcangyfrifir bod yng Nghymru tua 85,000 o oedolion sydd â rhyw fath o nam ar eu golwg, er mai dim ond ychydig dros 14,000 sydd wedi eu cofrestru'n swyddogol. Fe fyddwn ni'n gwneud argymhellion, gan obeithio dylanwadu ar y rhai sy'n llunio polisiau i roi mwy o feddwl i'w anghenion hwy yn y dyfodol wrth fynd ati i gynllunio gwasanaethau neu nwyddau."

Dr Nich Pearson, Uwch Swyddog Polisi a Datblygu CDC, fydd yn ymgymryd â'r prosiect hwn. Cyhoeddir yr adroddiad llawn ddiwedd haf 1991.

**ADRODDIAD PEDWAR MIS CDC**

**Ymysg y prosiectau eraill y bydd CDC yn ymgymryd â hwy dros y misoedd nesaf mae:**

- **Therapi Lleferydd – adroddiad a fydd yn edrych ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru, gan ddwyn sylw at y meysydd sy'n achos pryder ac enghreifftiau o arferion da, gan awgrymu ffyrdd o wella'r ddarpariaeth.**
- **Arolwg Bagiau Trymion – astudiaeth a fydd yn edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i deithwyr sy'n cario llwythi trymion wrth ddefnyddio gwasanaethau cludiant cyhoeddus.**
- **Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion – mae'r diddordeb mewn dysgu'r Gymraeg yn cynyddu, ond ydy'r ddarpariaeth yn ddigon i ateb y galw?**

DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

# "BRON AR YR ERCHWYN"

**Fel eu cryfaniad nhw at Apêl Plant Mewn Angen y BBC, penderfynodd Clwb Beicwyr Modur Taf, Caerdydd ymgymryd â thaith hir o gwmpas gororau ac arfordir Cymru mewn 24 awr. Hyd y gŵyr y Clwb, doedd neb wedi ceisio gwneud y daith o'r blaen, ac roedd pawb yn gobeithio codi swm sylweddol drwy noddi.**

Ar ôl chwe mis o drefnu a chwilio am noddwyr o blith busnesau lleol ar gyfer y daith ei hunan, yn ogystal â chael benthyg pedwar beic gan ddelwyr, fe ddaeth yr awr fawr.

Roedd y daith i ddechrau ganol nos ar nos Iau 22 Tachwedd. Dechreuodd y noson ei hunan gyda derbyniad i'r noddwyr ac aelodau'r Clwb, ac wedyn tua 11.30pm teithiodd pawb o'r Cross Inn i Neuadd y Ddinas, Caerdydd lle roedd yr Arglwydd Faer, y Cynghorydd John Smith, i godi'r faner ac anfon y tîm beicwyr ar eu ffordd wrth i'r cloc daro deuddeg.


Roedd y niwl a oedd wedi disgyn rai oriau'n gynharach wedi codi ryw ychydig, ac roedd y tîm yn awyddus i ddechrau – Jonathan Beare, Dave Field, Sam Dart, Alan Robinson, Alyson Beech, Neil Clarke, Sharon Davies, Windsor Conway, Gareth ac Elaine Haydon, Steve Lewis a Phil Jenkins.

Wrth i'r cloc daro am y tro olaf daeth y faner i lawr ac i ffwrdd â ni – gan adael Neuadd y Ddinas ac ymlaen drwy'r Ddinas ar hyd Newport Road a baner y Clwb yn chwifio. Wrth i ni gyrraedd Casnewydd aeth y niwl yn fwy ac yn fwy trwchus. Yn fuan iawn gallem weld 20 llath ymlaen yn unig a disgynnodd ein cyflymdra i 25-30 MYA. Arhoswyd am y tro cyntaf mewn gorsaf betrol 24 awr yn Henffordd. Doedd dim angen perswâd i lenwi â phetrol a chael cwpanaid o goffi poeth a bisgeden neu ddwy. Er mwyn cynhesu troais y stereo i fyny'n uchel ar fy meic a dechreuodd pawb ddawnsio.

Roedd hi'n bryd ail-gychwyn eto ac allan â ni i'r niwl drachefn.

Ar ôl cyrraedd Amwythig digwyddodd ychydig gymysgwch – gormod o gylchfannau. Roedd hi'n rhewi, a thra roedden ni'n cerdded o gwmpas yn astudio'r map, daeth dau heddwas West Meria atom i gynnig cwpanaid poeth o goffi yn eu pencadlys. Doedd dim angen gofyn ddwywaith, ac i ffwrdd â ni gyda gosgordd o oleuadau glas yn fflachio.


Diolchwyd i John a Tony, y ddau heddwas, ac i ffwrdd â ni. Ar ôl cael ein tywys allan o Amwythig ac i'r A5 tuag at Wrecsam, aros eto yn oriau mân y bore cyn aros yn Nhreffynnon i gael brecwast. Yno cafodd y tîm fwyta ac yfed ac ymolchi wrth i'r wawr dorri ac yn ôl â ni ar ein taith ar ein beiciau rhewllyd.












Ein nod oedd cyrraedd Caernarfon erbyn 9.00am, sef tua 50 milltir. Heibio i Lanelwy, drwy Gonwy ac o gwmpas Bangor gan gyrraedd am 9.10am yn barod am gyfweliad ar Radio Wales.

Roedd y Maes yng Nghaernarfon yn ferw o bobol wrth i ni barcio yn ymyl Dalek aur a gwyn! Gofynnodd yr holwr pryd oedden ni wedi dechrau, pa mor bell oedden ni wedi teithio a ble roedden ni'n mynd nesaf. Y cam nesaf oedd o gwmpas Sir Fôn, tuag at Caergybi, i'r dde i Amlwch ac yn ôl ar draws Afon Menai, nôl drwy Gaernarfon, yna stop ym Mhorthmadog. Bu ychydig welliant yn y tywydd am gyfnod, ond yn fuan fe ddechreuodd fwrw glaw. Er nad oedd yn drwm, roedd yn ddigon drwg i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwlychu!

Arhoswyd ym Mhorthmadog i gael cinio, gan fanteisio ar ein hamser da i chael awr o hoe.

Roedden ni'n barod i fynd eto, ond bu ychydig flerwch cyn i ni groesi'r bont a dod o hyd i'r ffordd iawn am Ddolgellau.

Ac yno y bu'r ddamwain. Wrth ddod drwy'r troeon ac ar draws cyffordd Betws-y-coed, syrthiais i am Sam oddi ar ein beic hanner tunnell Harley-Davidson Ultra Glide. Y stop nesaf i Sam a minnau oedd Ysbyty Lleol Ffestiniog am ychydig oriau i gael archwiliad, plygu ychydig gymalau, glanhau ac ychydig bwythau – tair a dweud y gwir!

Doedd hi ddim yn bosib i ni barhau gyda gweddill y tîm. Roedd pawb yn meddwl y byddai'n well i Sam fynd adre mewn tacsi gydag Elaine, gwraig Gareth. Yn y cyfamser ad-drefnwyd y daith, i ddechrau i lawr i Aberystwyth ac yna, yn lle mynd ymlaen i Abergwaun a Milffwrd, yn ôl i Lanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin gan ein bod wedi colli cymaint o amser ac roedd y tywydd yn gwaethygu bob munud.

Cyn pen awr daeth y RAC ac i fyny â'r Harley-Davidson i'r cert. Ar ôl penderfynu sut i fynd, i ffwrdd â mi gyda'r RAC. Chymerodd hi ddim llawer o amser i fi ddechrau gwerthfawrogi cab cynnes y fan RAC wrth i'r glaw dywallt i lawr yn Aberystwyth. Roeddwn i'n gobeithio bod pethau'n iawn gyda gweddill y tîm. Aethom drwy Landeilo ac yna drwy Langadog a thros y Mynydd Du i Frynaman, wedyn drwy Bontardawe a cheisio cyrraedd yr M4 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Pe bai'r tîm wedi cymryd y ffordd hon fe fyddwn yn gofidio amdanyn nhw, oherwydd roedd storm o eira ar y mynyddoedd. Ar ôl dychwelyd clywais pa ffordd roedden nhw wedi mynd.

Rhoddwyd y gorau i'r cam olaf, lle byddem i gyd yn cwrdd â gweddill y Clwb ar ffordd osgoi y Bont-faen, ac felly aethom ar ein hunion i stiwdios y BBC yn Llandaf. Yn anffodus, oherwydd y ffwdan gyda'r tywydd, yn ogystal â bod ychydig yn hwyr, dim ond 45 eiliad gawson ni ar gyfer cyfweliad – siomedig iawn ar ôl cymaint o ymdrech.

Gobeithio y bydd ein hymgais i deithio o gwmpas Cymru ar gefn beic modur yn codi dros £3,000 i'r Apêl. Ond mae'r diolch pennaf i Jonathan, Dave, Alyson, Steve, Phil, Windsor, Gareth ac Elaine, Neil a Sharon am orffen y daith yn ddiogel mewn tywydd ofnadwy.

# MENNA'N MANYLU

**Yn Eisteddfod Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd – Enillodd Gystadleuaeth y Gadair dan 31 a'i chwaer Ceri Mair anfonodd atom gan fod Menna yn llawer rhy wylaidd.**



◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

## CWLWM

Deffrôdd bywyd cynnar yn y tir,
a thorrwyd incil mesur y gaeaf garw
gan uno perthynas ffres gyda'r hen dymor.

Hir a beichus fu'r misoedd maith,
ac amod natur cariad wedi'w glymu'n glos
wrth rwymyn y gobaith am fywyd newydd.

Daeth sgrechiadau hir-ddisgwyliedig y
gwcw
yn gecru parablus ar big y bychan,
yn adlais hudolus drwy lesni'r dolydd,
a'r famiaith hardd yn wyryf ifanc.

Yn llaw'r gwarchodwr,
Harddwyd llymder y ffriddoedd
gan flodau'r llongyfarch
a pherarogl briallu a blodau Mawrth
yn falm i enaid yn y gwynt clinigol.

Daeth cysur y blagur a'u blys
Yn blethen yn yr enfys,
Ac egin y fegin fach
Yn llinyn tynn i'w llinach.

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

Lloffwyd y cnydau'n sypiau sychion,
a chwaraeai us ffres yr ŷd ffrwythlon
yn ddireidus
rhwng y plethi melyn.
Cowlaswyd y cynhaeaf yn y gadlas glyd
a chywarch yr edau'n crogi rhaffau'r gwair.
Tyfodd yr adladd ir ar dir y dyffryn
wrth iddi hithau ddatblygu'n glws
fel gold y gors – ei gwallt yn hedfan
yn dorchau euraid yn awelon Awst.
Dawnsiai her a harmoni cariadus yn
fforestydd trwchus ei haeliau,
a chwant a chysur
yn boddi llawnder ei llygaid.
Hedai breuddwydion chwilfrydig
i orwelion ei gwyryfdod,
wrth iddi dderbyn a gwrthod,
dysgu a darganfod dyheadau natur
ei chorff.

Breuddwydiai am ryddid
i weu amdorch o nyth –
fel gwennol y bondo a chlochdar yr eithin –
yn gwlwm o gariad parhaol
efo'i harwr hardd,
a grogai'n ddel ar linyn
uwch ei gwely gwag.

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

Distewodd rhuthr a phrysurdeb yr haf
gan adael llymder daear dan draed.
Trodd lliwiau llachar
minlliw y dail ganwaith
cyn i'w gwreiddiau freuo a
syrthio'n freuddwydiol i'r ddaear.
Daeth y wiwer lwyd
yn eofn i'r coed – a bygwth dyfodol y goch
ddiniwed –
gan sgubo'i chynhaliaeth yn stôr
ddihysbydd
"at ddydd y gawod law".
Bu'r gwragedd hwythau ar hyd
gwrychoedd bywyd
yn casglu natur i'w celloedd oer,
gan glymu cnotiau cadarn
ar ddeupen y llinyn –
tynn oedd gafael hwnnw erbyn hyn.

Clywyd bref y gwartheg esgyrnog
yn ymbil am ymborth
wrth i wrthban y nos wasgu amdanynt –
ac aerwy'r gaeaf ar eu gwarthaf.

Mor hir yr edrychai'r dydd
wrth i fywyd fyrhau –
a bysedd meinion Amser
yn ceisio'n ofer i droi wyneb y cloc
yn ei ôl.

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

Daeth curiad pendil yr aros i ben.
Distewodd sibrwd y gwynt gaeafol
yng nghoedwig dywyll yr isymwybod,
ac arafodd llif yr afon
wrth i'r gwaed oer geulo rhydwelïau'r cof.
Taenwyd haen o eira dros rychau'r cwm
tawedog, liw nos,
a gwisgodd y wenci winau ei chôt wen
yn amdo laes
am gwlwm tragwyddoldeb.

Gollyngwyd rhaffau bodolaeth i grombil
ebargofiant
yn bridd du i lwch cenhedloedd gynt,
ac amod natur cariad
Duw
wedi'w glymu'n glos
wrth rwymyn y gobaith am
fywyd yn nhragwyddoldeb.

Mae gwythiennau'r brigau brau
Heno'n ingol gan angau.

# "Cawl Cartref"

Mae Teledu'r Tir Glas yn chwilio am fideos cartref doniol ar gyfer eu cyfres deledu newydd "Nos Sadwrn", a fydd yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd. Mae'r camera fideo yn dechrau dod yn declyn cyfarwydd mewn llawer o gartrefi, ac yn cael ei ddefnyddio i ffilmio priodasau, plant, chwaraeon a digwyddiadau lleol o bob math. Weithiau mae 'na rywbeth annisgwyl yn digwydd ynghanol y ffilmio sy'n creu eiliad o ddoniolwch pur. Dyma'r math o fideo y mae Tir Glas yn chwilio amdano, a'r gobaith ydi dangos y goreuon ar y rhaglen. Bydd fideo gorau'r gyfres yn ennill gwobr o wyliau tramor i ddau ar ddiwedd y gyfres. Bydd y cwmni'n anfon pob fideo yn ôl i'w berchennog cyn gynted ag y bo modd. Y cyfeiriad ydi Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd. Rhif ffôn: (0286) 5766. Cynhyrchydd y rhaglen yw Huw Jones.

# Soned y Mis

## Sir Gaerfyrddin

Ni wyddom beth yw'r ias a gerdd
drwy'n cnawd
Wrth groesi'r ffin mewn cerbyd
neu mewn trên:
Bydd gweld dy bridd fel gweled
wyneb brawd,
A'th wair a'th wenith fel perthnasau hen;
Ond gwyddom, er y dygnu byw'n y De
Gerbron tomennydd y pentrefi glo,
It roi in sugn a maeth a golau'r ne
A'r gwreiddiau haearn ym
meddrodau'r fro.
Mewn pwll a gwaith clustfeiniwn
am y dydd
Y cawn fynd atat, a gorffwyso'n llwyr,
Gan godi adain a chael mynd yn rhydd
Fel colomennod alltud gyda'r hwyr;
Cael nodi bedd rhwng plant yr og
a'r swch
A gosod ynot ein terfynol lwch.

### CYDYDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Dr Jane Jones yn ei phrofedigaeth o golli tad annwyl D O Jones. Wedi colli ei wraig cartrefodd tadcu yn 9 Lady Mary Road – a nawr fu gofal Jane, Bill a Lisa ohono. Cyn brifathro a dyn o Sir Gâr oedd D O Jones ac ni phylodd ei hiraeth am y Sir. Y mae'n awr yn ôl yn gorffwys ym mhridd a daear ei annwyl fro, a'r teulu yn dawel eu meddwl iddo gael ei ddymuniad.

# CRWYDRO

**Dyma adeg o'r flwyddyn pan ddaw'r ysfa i ymweld â'r Eidal a blasu'r diwylliant unigryw hwnnw drosof fy hun unwaith yn rhagor. Erbyn hyn fe fydd Cyn Fyfyrwyr Aberystwyth wedi penderfynu aros yng Nghymru, dim ond rhag ofn y bydd galw sydyn yn dod o rywle er mwyn iddynt gael trefnu tynged y 'bur hoff bau' am eleni eto. Bydd hyd yn oed 'crinclis' y tripiau Saga wedi hen roi'r gorau i'w crwydriadau ffôl a dim ond y fi a chriw o bobl ddethol fel finnau fydd yn mentro ar dywydd cyfnewidiol gaeafau'r Mare Nostrum.**

Anelaf yn syth at Napoli, dim o'r hen rwts o fynd i Rufain neu Ffirensa na dim byd felly ond yn syth i Napoli i gael edrych unwaith yn rhagor ar ysblander y bae a gwylio'r haul yn machlud rhwng y cymylau ar y môr tymhestlog. Mi fydd yn tywyllu'n sydyn, tywyllwch melfedaidd dros bob dim, ac yna daw goleuni, goleuni llachar y llif oleuadau yn dallu pob llygad a'r dorf yn rhuo wrth i Maradonna arwain ei ddynion glew i faes y gad. Suddo'n ôl yn foddus i fwynhau'r wledd o sgiliau dihafal a chael naws yr ynni creadigol sy wedi nodweddu'r genedl hon ers dyddiau'r dadeni a synfyfyrio.

Daw "syniade' i wyneb y dychymyg effro ac yn lle arwyr heddiw fe all dyn greu ei ddelweddau ei hun a dweud 'beth petai?'

Beth petai arwyr y genedl hon yn fyw heddiw? Oni fydden nhw am fod yn rhan o ddiwylliant a berw'r presennol? Tybed a fyddai enwau'r tîm ar y rhaglen o'm blaen rhyw dipyn bach yn wahanol? Fyddai Michelango Buonoparti ddim yn rhyw gamu nôl a blaen rhwng y pyst ar ben ucha'r maes a chreu patrwm a ffurf allan o symudiad y bêl o un droed gelfydd i'r llall, gan weld yr un prydferthwch yn hanner cylch y bêl o droed blaenwr i gornel ucha'r rhwyd yn debyg i gylch bach y Madonna? Fyddai Giotto'n dal i wneud y pethau hanfodol a chreu ffurf a phatrwm y gwir grefydd wrth wrthsefyll pob tric o eiddo rhyw wrthgiliwr o asgellwr fel Safnafarola? Fyddai Ferdi'n swyno pawb â'i gyffyrddiadau celfydd yng nghanol y cae a rhuthr di-droi'n ôl ei rediadau nerthol tua'r cwrt cosbi?

Croesi'r bêl at y dewrion Garibaldi a Mazzini fyddai'n barod i frwydro hyd at angau dros yr achos a digalonni'n llwyr wrth weld Raphael yn tindroi yn ei unfan a gwastrafu'i egni ar bob math ar dric cymleth cyn iddynt rhyw droi'n benisel at y fainc ac ymweld ar i Dante yng nghanol ei weledigaethau ei dynnu oddi ar y cae a gadael i rywun, llai talentog ond un fyddai'n fwy tebyg o ganolbwyntio ar ofynion y funud gymryd ei le. Beth am ddodi Machiafeli yno i gynllunio cwymp y gwrthwynebwyr? Mwy nag awr a hanner o fyfyrio ac yna mor hyfryd fyddai gadael y maes am dŷ bwyta a thrin a thrafod dros wydraid o win a phenderfynu ai Dante'n wir yw'r union ddyn i gadw trefn a chynllunio dyfodol y dynion athrylithgar sy ar y maes.

Awgrym a dadl a gwrthddadl wrth i enwau Umberto Eco a Primo Lefi gael eu crybwyll fel rhai â'i bysedd ar y datblygiadau diweddaraf ym myd celfyddyd, ac efallai y bydd enw Roselini neu Heleni digwydd cael eu crybwyll? Ond digon fydd hi i mi a miloedd tebyg os bydd y tîm, er gwaethaf pob dim a wna'r gwrthwynebwyr, yn ein hanfon adref wedi blasu buddugoliaeth arall.


Cae'r Delyn

Y Feithrinfa yn y Fro,
yn Saint Hilari,
ger y Bontfaen

Ffôn:
0446 772888


# DEFFRWCH! BENTEULU

Allan o *Caneuon Llafar Gwlad*, gol D Roy Saer (Amgueddfa Genedlaethol Cymru – Amgueddfa Werin Cymru, 1974).




Tâp AWC 610. Recordiwyd 9.8.63 gan Miss Selina Griffiths (gwraig tŷ, g 1880), Garn, y Dinas, ger Abergwaun, sir Benfro. Dysgodd SG y rhigwm Calan hwn pan oedd yn ferch fach yn ardal Caersalem, ger Trefdraeth; arferai plant ei ganu o ddrws i ddrws yno ar fore'r Flwyddyn Newydd.

Ceir yn Gymraeg doreth o rigymau Calan byrion, yn enwedig o dde a gorllewin Cymru. Mae'n debyg y gellir edrych arnynt fel gweddillion hen ganu gwasael tymhorol (a anelai at hybu ffrwythlondeb). Er bod yr arfer o'u defnyddio bron â darfod o'r tir bellach, erys llawer ohonynt yn fyw ar gof gwlad. Peth cyffredin gynt oedd canu nifer o'r rhain yn un gyfres. Cyflwynant eu neges yn gryno: yr hanfodion a geir ynddynt amlaf yw cyhoeddi dyfodiad y Flwyddyn Newydd, dymuno Blwyddyn Newydd dda i'r teulu ac erchi 'calennig' oddi wrtho. Yn amlwg, cenid ambell un o'r rhigymau hyn yn ystod oriau cysgu: galwant ar y teulu i godi o'r gwely. Yr arferiad oedd i wŷr ifainc (a *gwŷr* yn unig, sylwer) 'fynd mas i ganu' wrth y drysau wedi deuddeg Nos Galan ac i blant wneud hynny yn ddiweddarach yr un bore, o amser codi trwodd hyd ganol dydd. Amrywiai'r rhodd a gâi'r cantorion: gallai fod yn 'doc o fara a chaws' neu'n 'gace bach a diod', er enghraifft, yn ogystal â rhodd ariannol.

# CAMLAS MORGANWG 1951-1990

**Ar ôl trychineb y 'Catherine Ethel' a cholli y dŵr o'r Gamlas fe aeth Cyngor Tref Caerdydd, perchnogion y Gamlas erbyn hyn, ati i'w llenwi, a defnyddio y tir a grewyd. Gwerthwyd safle adeiladu i BHS a Mackross am £120,000, a gosodwyd rhannau eraill am log o £20,000, o na fyddai bob buddsoddiad yn talu nôl mor dda!!! Ni wnaethpwyd dim â'r rhan isa, er i'r trigolion erfyn am eu llenwi oherwydd llygod a drewdod, nes i hogyn 13 oed o Dudley Place, mab Mrs Bowden, gael ei losgi yn ddrwg. Tramp wedi cynnu tân yn y Gamlas wrth ochr hen farril paent, fe ffrwydrodd hwnnw gan luchio paent poeth dros yr hogyn a'i gaethiwo i ysbyty am un wythnos ar ddeg. Fe sbardunodd hyn y Cyngor i fynd ati i lenwi y Gamlas, o'r môr hyd at ben uchaf Bute St, a chreu lawnt werdd sydd yn gerddedfa hyfryd a thawel hyd heddiw.**

Yn y cytundeb a wnaethpwyd rhwng y Cyngor a'r Bute's yr oedd un cymal, sef cymal 31, yn datgan fod y Gamlas a'r tir oedd yn rhan ohoni rhwng Melingriffith a Thongwynlais i'w gadw yn lle hamdden i'r cyhoedd. Felly, yn 1967, gofynnodd Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd, yn ystod blwyddyn dathlu eu canmlwyddiant, i'r Cyngor ddatgan y rhan yma yn Warchodfa Natur, ac fe gytunwyd. Erbyn heddiw, mae y rhan yma o'r gamlas yn llawn o ddŵr glân sydd yn llifo yn araf a thawel, yn gartref i bysgod a phlanhigion. O gwmpas mae gweirgloddiau, coedwig (rhai dros 200 mlwydd oed), prysgwydd, a'r rhain i gyd yn llochesu pob math o blanhigion, anifeiliaid, a bron i gant o wahanol adar, fel Glas y Dorlan, Coch dan Aden, i gyd yn amrywio fel mae y tymhorau yn newid. Lle delfrydol i hyfforddi plant mewn Naturyddiaeth, ac os oes rhywun am fanteisio ar y cyfle hwn, cysylltwch â Mr Chris Powell, ffôn 751235. Lle i gerdded a mwynhau y tawelwch a'r olygfa ar gyrion tref brysur Caerdydd. Fe brynwyd Forest Farm, sydd ar bwys y gamlas, gan y Cyngor tua 1980, ac yno mae safle Warden y Parc, Mr Mic Wiley, ffôn 612213, a 6 o wardeiniaid gwirfoddol, a chroeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y math yma o waith i ymuno. Yno hefyd mae y "Watch" yn cwrdd, cymdeithas i blant rhwng 6-14 oed, dan nawdd Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Natur, i gynnal gwaithgareddau i mewn ac allan. Eleni, maent wedi adeiladu 30 o flychau nythu a'u gosod allan yn y Warchodfa; hyd yn hyn, mae 21 yn cael ei defnyddio gan wahanol adar, a'r plant yn cadw golwg arnynt. Yr arweinydd yw Mr Chris James, ffôn 611342.

Mae yn ganolfan hefyd i fudiadau sydd yn rhoi hyfforddiant a gwaith ymarferol yn y wlad, sef y British Trust for Conservation Volunteers, BTCV (Wales), Conservation Practice Ltd, a Forest of Cardiff Project. Cyfle i wirfoddolwyr ymgymryd â dysgu sut mae edrych ar ôl Gwarchodfa ar amgylchedd trwy fynd o gwmpas De Cymru ar wahanol fwriadwaith. Llynedd, fe blannwyd 15,000 o goed yng Nghaerdydd gan y Forest of Cardiff Project, ac os ydych yn gwybod am rywle sydd ag angen coed i harddu yr amgylchedd, neu am rhywun sydd â diddordeb mewn gweithio allan yn yr awyr iach cysylltwch â Mr Chris Small, ffôn 626660.

Pen isaf y gamlas, ger hen waith Alcan Melingriffith, ceir safle peiriant enwog a adeiladwyd ym 1806 i drosglwyddo'r dŵr, a gymerid o afon Taf uwchlaw'r weithfa i yrru ei holwynion dŵr, yn ôl i'r gamlas. Dyma un o gyfraniadau sylweddol Cymdeithas Archaeoleg Diwydiannol Oxford House, Rhisga, Gwent, adeg dathlu Treftadaeth Ewrop, Blwyddyn yr Adeiladau, 1975. Mae yr hen bwmp a'r olwyn ddŵr yn edrych bron fel newydd erbyn hyn, ar gobaith yw gweld yr olwyn yn troi unwaith eto cyn diwedd y flwyddyn. Os oes rhywun â diddordeb yn y gwaith yma, cysylltwch â Mr Roger John, ffôn 843992. Y bwriad yw, gwneud llwybyr ar hyd ochr yr afon ac yna ar hyd yr hen rheilffordd a oedd yn rhedeg o waith Haearn Pentyrch i Melingriffith nes cyrraedd argae Radur – o'r fan yma bydd y dŵr yn dod i yrru'r olwyn ddŵr.

Pen uchaf y gamlas, fe helaethwyd y Warchodfa gan ddefnyddio yr hen reilffordd sydd yn ymestyn hyd at Coryton, rhan o'r hen "Cardiff Railway" a adeiladwyd gan Bute yn 1898-1911, i redeg o Gaerdydd i Pontypridd i gystadlu yn erbyn y Taff Vale, ond a fu yn fethiant. Erbyn hyn mae'r adar yn falch iawn ohoni!!

Ar hyn o bryd mae y Warchodfa, y Ffarm a'r tir, y pwmp dŵr, argae Radur, a gobeithio, y ddau gae ar draws yr afon sydd yn ymestyn at y rheilffordd yn Radur, o dan ystyriaeth i gael statws fel "Forest Farm Country Park". Er mwyn gwarchod yr hafan hyfryd hon, er lles i fywyd gwyllt, ac fel lle gwerthfawr i sylwi ac astudio, fe ffurfiwyd cymdeithas, "Friends of Forest Farm Country Park and Glamorgan Canal LNR". Pris aelodeth Teulu am flwddyn £3.00. Cysylltwch â Mrs Stephanie Crocker, ffôn 610043.

**Mae y Gamlas yn dal yn fyw ac iach, gwnewch yn fawr ohoni a chadwch y ci o dan rheolaeth os gwelwch yn dda!**

**E O Edwards**


# PRIFYSGOL CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o Deipyddes Llaw-fer Ddwyiethog yng Nghofrestrfa Prifysgol Cymru. Gradd 3 UCNŚ (£8,510 – £9,862 y flwyddyn).

Dyddiad cau 18 Ionawr 1991. Manylion pellach oddi wrth y Cofrestrydd, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NS.



## Hoffech chi


**wireddu breuddwyd arbennig?**

Darllen y newyddion?
Cyfarfod rhywun enwog?
Sgorio cais ar Barc yr Arfau?
Canu mewn grŵp, opera neu gôr?
Cymryd rhan mewn rhaglen deledu?

**DYMA EICH CYFLE**

Os hoffech wneud un o'r uchod neu unrhyw beth arall, hoffwn glywed gennych ar gyfer cyfres newydd i S4C.

*Anfonwch eich llythyrau at:*
ELWYN VAUGHAN WILLIAMS
CWMNI'R CASTELL CYF
1 FFORDD COED PELLA
BAE COLWYN, CLWYD LL29 7AT



## CROESAIR AP LEWSYN Rhif 106

**Ionawr 1991**

AR DRAWS:


7. Craffwch! A dacw fydd y cytundeb goddefol. (8)
9. Ted Breese, efallai. (6)
10. Gweithgaredd Ffigaro, (yn Sefil). (5)
11. Deryn bach corniog a gollodd ei gyswllt wrth gyffroi. (5,3)
12. Y nodwedd a welir yn ddifeth wrth agor ffeil adar Gwynedd. (14)
15. Ofer. (6)
16. "Ceiniog i wario, a cheiniog i . . ." (Can werin) (6)
18. Ar ôl cael triniaeth, hunodd Ann, fel Nia, yn dawel a digyffro. (14)
20. Yr oedd wedi ymadael. (8)
22. Americanwr diborch. (5)
24. Colbio yn arw wrth loywi. (6)
25. Fel darn ugain ceiniog. (8)

I LAWR:

1. Am hanner y mis bu peth sôn am fy llythrennau. (8)
2. Llwch euraid y mae'r gwenyn yn ei gywain. (4)
3. Adfer dy fedr i'w gyflwr iawn. (6)
4. Chwilio'r byd o'r America i ben draw Asia i gael modd i gloddio. (4)
5. Mudiad rheolaidd gan y bobl gyffredin? (5,5)
6. Y bobl yn gyffredin eto! (6)
8. Persawrau sy'n gwneud y gorau o Nel. (9)
13. Nid oes angen siec na newid. (5,5)
14. Iawn o beth i gloi yn hyderus. (9)
17. "Newid ddaeth – . . . – . . .". (Alun Mabon). (1,3,1,3)
18. Llyffetheriau. (6)
19. Doed i farnu drosto ei hun a dangosed ei bod hi'n flin ganddo. (6)
21. Nifer y colofnau a godwyd gan Ddoethineb. (4)
23. Bydd llesgáu yn sicr o fod yn rhan o'ch profiad os bydd gennych uchelgais. (4)

### CYSTADLEUAETH RHIF 105

Tocyn Llyfr Cymraeg £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Ionawr 19eg, 1991, os gwelwch yn dda.



Datrysiad Rhif 105 – Tachwedd/Rhagfyr 1990

### CYSTADLEUAETH RHIF 105

Daeth pedair-ymgais-ar-ddeg i law. Un gwall yn un ohonynt a'r gweddill yn gwbl gywir. Enw Mrs Margaret Jones, Heol Betws-y-coed, Cyncoed a dynnwyd o'r het, ac felly hyhi a gaiff y tocyn llyfr y mis hwn. Enwau'r deuddeg cywir and anlwcus y tro yma yw: Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; John G Breese, Glan-yr-afon; Mrs Delyth Pollard, Radur; John Hughes, Llanisien; Robin D N Bateman, yr Eglwysnewydd; Marged Davies, Llandaf; Huana Simpson, Y Bontfaen; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; Mair Tysul Jones, yr Eglwysnewydd; Hywel Jones, Cathays; Mrs Morfudd Davies, Aberaeron; ac Elen H. Lewis, Radur.

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

## Gwaith Cartre?

Yr wyf yn falch iawn i weld bod D. Jones, yn y llythyr agyhoeddwyd yn rhifyn diwetha'r "Dinesydd" yn cydsynio â mi mai'r ffordd ymlaen gydag Addysg Gymraeg yw cael mwy o Ysgolion.

Syndod a siom felly oedd darllen ymlaen a dod o hyd i honiadau camarweiniol am yr ysgol hon gan fy nghyhuddo i o fethu â gwneud fy ngwaith cartre,

Teimlaf felly bod yn rhaid i mi ateb yr honiadau drwy sicrhau rhieni a darpar rieni unwaith eto nad yw'r ysgol hon, na'r Adran Babanod chwaith, yn orlawn – mae dwy stafell yn dal yn wag.

60 y flwyddyn yw nifer mynediad cyhoeddedig Bro Eirwg. Mae 56 plentyn wedi cael mynediad eleni (dros 60?). Yn yr Adran Babanod yn benodol, mae 170 plentyn ac 28 ar gyfartaledd ym mhob dosbarth.

Dichon felly bod datganiadau D. Jones ynglŷn â stafelloedd gwag mewn ysgolion yr un mor simsan eu cywirdeb.

Da chi, D. Jones, gwnewch *chi* eich gwaith cartre.

**Elfan W. Jones**


DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*
**Gareth Whelan**
Cae'r Delyn
Sant Hilari
Y Bontfaen
CF7 7DF
☎ 0446 772888

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn
Chwefror
**11 – 01 – 91**
14,400 o ddarllenwyr




Bod yn hyblyg a rhoi gofal
ydi nôd

# SI-LWLI

Meithrinfa Gymraeg
yn agor ym mis Mawrth yn
Heol Romilly, Treganna
Os am le neu fwy
o fanylion cysylltwch â

**Ruth Parry**
**Caerdydd 553423**

